# Adroddiad Blynyddol

## 2024 - 2025

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Rhagair | 1 |
| 02 | AGIC mewn Niferoedd | 6 |
| 03 | Rheoleiddio Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol | 10 |
| 04 | Gweithredu drwy Uwchgyfeirio a Gorfodi | 20 |
| 05 | Asesu Ansawdd a Diogelwch Gofal y GIG | 24 |
| 06 | Gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghymru: Ein Sicrwydd a'n Heffaith | 38 |
| 07 | Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau | 43 |
| 08 | Ymgysylltu a Phartneriaethau | 55 |
| 09 | Ein Hadnoddau | 64 |
| 10 | Cyswllt | 67 |

# Amdanom Ni

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth annibynnol y GIG a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

### Ein diben

Sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

### Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno.

### Ei gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.
Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf.

# Mae ein pedair blaenoriaeth strategol yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein nod o fod yn llais dylanwadol sy'n ysgogi gwelliannau ym maes gofal iechyd.



**Byddwn yn:**

Canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.

**Byddwn yn:**

Addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg.

**Byddwn yn:**

Cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd.

**Byddwn yn:**

Cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.

## Yr hyn a wnawn

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

Rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

Rydym yn cynnal rhaglen o adolygiadau er mwyn edrych yn fanwl ar faterion cenedlaethol neu faterion mwy lleol.

Rydym yn monitro pryderon ac atgyfeiriadau diogelu.

Rydym yn cymryd camau rheoleiddio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd annibynnol cofrestredig yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

Rydym yn argymell gwelliannau, di-oed a thymor hwy, i wasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

Mae gennym dîm o 87 o aelodau o staff, sy'n gweithio ledled Cymru i gefnogi ein swyddogaethau a gwneud ein gwaith sicrwydd.


Mae gennym dîm o adolygwyr cymheiriaid arbenigol sy'n cael eu recriwtio'n barhaus gennym i ddarparu gwybodaeth arbenigol, gyfredol am wasanaethau a safonau ansawdd.

Mae gennym arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Mae gennym banel o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad i gasglu barn cleifion yn ystod arolygiad.

01.

# Rhagair



# Rhagair



**Alun Jones**
**Prif Weithredwr**

## Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024 - 2025

Bob blwyddyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi canfyddiadau allweddol ein gwaith o reoleiddio, arolygu ac adolygu gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn fwy na chofnod o'r hyn rydym wedi ei wneud; mae'n bwynt cyfeirio sy'n galluogi'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar lefel weithredol a strategol, a'r rhai sy'n llunio polisïau, i ystyried yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn y mae angen rhoi mwy o sylw iddo.

## Gwrando ar Gymru: Pryderon a Chwythu'r Chwiban

Y flwyddyn hon, cawsom 743 o bryderon - cynnydd o 21% o gymharu â'r llynedd, a chynnydd syfrdanol o 102% ers 2019-20.

Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd, hyder cynyddol yn rôl AGIC ac, o bosib, pwysau systemig dyfnach ar draws gwasanaethau gofal iechyd. Mae pobl yn codi eu llais yn amlach, ac â mwy o frys, am y gofal y maent yn ei gael.

Rydym hefyd yn gweld pryderon mwy cymhleth yn cael eu codi. Mae llawer ohonynt yn ymwneud â nifer o feysydd gwasanaeth a lefelau risg uwch, sy'n golygu bod angen cymryd camau dilynol dwysach ac ymgysylltu'n uniongyrchol â darparwyr. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion lle rydym yn ceisio sicrwydd, sy'n dangos difrifoldeb y materion sy'n cael eu codi.

Mae nifer y pryderon chwythu'r chwiban wedi cynyddu hefyd - cynnydd o 36% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r datgeliadau hyn yn aml yn tynnu sylw at faterion dyfnach yn ymwneud ag arweinyddiaeth, llywodraethu a



diwylliant sefydliadol. Rhaid i staff deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi eu llais a'i bod yn ddiogel iddynt wneud hynny, ac mae rôl AGIC fel corff rhagnodedig yn hanfodol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn arwain at gamau gweithredu.

Mae'r lleisiau hyn, boed yn lleisiau cleifion, teuluoedd neu staff, wrth wraidd ein gwaith. Maent yn llywio ein blaenoriaethau a'n harolygiadau, ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar y meysydd sydd o'r pwys mwyaf.

## Mae Cymru yn Haeddu Gofal Diogel, Urddasol ac Effeithiol

Y flwyddyn hon, rydym wedi gweld system gofal iechyd sydd o dan bwysau aruthrol, ond ni all pwysau fod yn rheswm dros gyfaddawdu na normaleiddio ansawdd a diogelwch. Mae ein gwaith wedi dangos nifer o ganfyddiadau cadarnhaol, ynghyd â gwasanaethau tosturiol a diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi amgylcheddau a systemau sy'n cael eu hymestyn i'r eithaf.

## Y GIG: System sydd ar Groesffordd

Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu sefyllfa argyfyngus. Mae ein harolygiadau o bractisau meddygon teulu, adrannau achosion brys, unedau mamolaeth, a gwasanaethau iechyd meddwl wedi dangos system sydd wedi'i hymestyn i'r eithaf. Mae'r staff yn gwneud eu gorau, ond maent yn aml yn gweithio mewn amgylcheddau nad ydynt yn addas at y diben heb ddigon o adnoddau. Nid yw'r heriau'n rhai newydd.

Rydym wedi gweld adrannau achosion brys lle mae cleifion yn aros mewn coridorau, unedau mamolaeth lle mae diogelwch yn y fantol o ganlyniad i fylchau staffio, a wardiau iechyd meddwl lle nad yw risgiau difrifol i ddiogelwch cleifion wedi eu datrys o hyd. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru, Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn targedu llawer o achosion sylfaenol yr heriau hyn o ran y system, gan gynyddu'r gallu i gael gofal brys ar yr un diwrnod, gwella prosesau rhyddhau, a chefnogi athroniaeth gartref yn gyntaf. Er ei bod yn galonogol gweld bod darpariaeth gofal brys yn cael ei had-drefnu, erys y galw gan gleifion yn uchel, ac mae hyn yn aml yn effeithio ar brofiad cleifion.

Mae'r ffaith bod materion a nodwyd gennym yn flaenorol yn codi eto yn parhau i beri pryder sylweddol. Nid oes amheuaeth bod pob gwasanaeth gofal iechyd yn ymateb yn dda i'r her y mae AGIC yn ei gosod. Fodd bynnag, nid yw camau gweithredu bob amser yn cael eu hymgorffori na'u cynnal. Mae adnoddau digonol ac arweinyddiaeth a llywodraethu lleol effeithiol yn allweddol i gynnal safonau uchel ym maes gofal iechyd.

Serch hynny, rydym hefyd yn gweld gwydnwch. Rydym yn gweld staff yn darparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o dan amodau anodd. Rydym yn gweld arweinwyr sy'n gwrando, timau sy'n arloesi, a gwasanaethau sy'n gwella wrth gael eu herio. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos yr hyn sy'n bosibl pan roddir blaenoriaeth i wella a phan gaiff hynny ei gefnogi.

Rôl AGIC yw dwyn y system i gyfrif a'i helpu i wella. Rydym yn gwneud hyn drwy nodi risgiau, rhannu gwersi a ddysgwyd, a chefnogi gwelliannau. Rydym yn herio ymarfer gwael, yn tynnu sylw at ymarfer da, ac yn defnyddio ein llais i ysgogi newid.

## Gofal Iechyd Annibynnol: Yn Ehangu, Ond Nid Bob Amser yn Barod

Mae'r sector annibynnol yng Nghymru yn ehangu'n gyflym, yn enwedig gwasanaethau sy'n cynnig triniaethau laser, triniaethau cosmetig, deintyddiaeth breifat, a meddygaeth gyffredinol annibynnol/preifat. Er bod y twf hwn yn cynnig mwy o ddewis ac arloesedd, mae hefyd yn cyflwyno risgiau newydd.

Y flwyddyn hon, cyhoeddodd AGIC fwy o gamau gorfodi brys yn y sector gofal iechyd annibynnol nag erioed o'r blaen. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â darparwyr llai, yn enwedig clinigau laser a chosmetig a oedd wedi ymuno â'r farchnad heb ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau cyfreithiol neu'r safonau sy'n ofynnol i gadw pobl yn ddiogel.

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi'u cofrestru ag AGIC o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, fel y nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000. Nid yw cofrestru yn ddewisol; mae'n ofyniad cyfreithiol. Rhaid i ddarparwyr ddangos cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer diogelwch, ansawdd a llywodraethu. Mae proses gofrestru AGIC yn cynnwys asesiad ffurfiol o ddogfennaeth a gyflwynwyd, datganiad o ddiben, a thystiolaeth o barodrwydd i ddarparu gofal diogel.

Ni ddylid goddef gofal anniogel, p'un a yw'n cael ei ddarparu gan y GIG neu ddarparwr annibynnol. Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r un safon o ddiogelwch, urddas a pharch, ni waeth ble maent yn cael eu gofal.

## Iechyd Meddwl: Blaenoriaeth Genedlaethol

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i wynebu heriau sylweddol ac, mewn rhai achosion, hirsefydlog.

Rydym yn parhau i bryderu am gyflwr yr ystad mewn llawer o wasanaethau iechyd meddwl y GIG. Nid yw hyn yn fater newydd. Bu'n thema gyson yn ein harolygiadau ers sawl blwyddyn. Mae rhai cyfleusterau yn dal i fod mor hen a diraddedig fel na fyddent yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol i gofrestru fel darparwyr iechyd meddwl annibynnol. Nid yw rhai o'r amgylcheddau hyn yn addas i ddarparu gofal therapiwtig. Nid ydynt yn cynnig y diogelwch, yr urddas na'r sefydlogrwydd therapiwtig sydd eu hangen ar bobl i adfer a theimlo



eu bod yn cael eu cefnogi. Mae buddsoddiad strategol mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn hollbwysig, ond felly hefyd y mae blaenoriaethau gweithredol. Rhaid mynd i'r afael ag ôl-groniadau ystadau er mwyn sicrhau bod cleifion heddiw, nid dim ond rhai'r dyfodol, yn cael gofal mewn amgylcheddau sy'n ddiogel, yn barchus ac yn addas at y diben. I gleifion iechyd meddwl, nid yw'r amgylchedd ffisegol yn fater arwynebol; mae'n ganolog i ddarparu gofal iechyd meddwl modern effeithiol.

Rydym yn galw am fuddsoddiad brys ym maes gofal iechyd meddwl ledled Cymru, ac ymrwymiad cenedlaethol i wella'r gwasanaethau a ddarperir a'r gallu i gael gafael arnynt.

## Rheoleiddio sy'n Gwneud Gwahaniaeth

Rydym yn bodoli er mwyn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i ddiogelwch, ansawdd ac urddas gofal ledled Cymru. Y flwyddyn hon, bu ein gweithgarwch rheoleiddio yn gadarn a chymesur, gan ganolbwyntio ar ddiogelu cleifion a chefnogi gwelliannau. Rydym wedi:

- Atal gwasanaethau anniogel lle roedd diogelwch cleifion yn y fantol
- Dynodi darparwyr yn Wasanaethau sy'n peri Pryder a rhoi llwybrau uwchgyfeirio ffurfiol ar waith
- Lansio ymchwiliadau troseddol i ddarparwyr anghofrestredig
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cenedlaethol er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â phryderon difrifol ar y lefelau uchaf
- Cefnogi gwasanaethau i wella drwy waith monitro penodol, arweiniad, a chamau dilynol.

Rydym hefyd wedi rhoi mwy o lais i gleifion, teuluoedd a staff, gan mai man cychwyn gwelliant gwirioneddol yw gwrando. Mae eu profiadau yn llywio ein barn ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar y meysydd sydd o'r pwys mwyaf.

## Diolch

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bobl Cymru am barhau i rannu eu profiadau â ni; mae eich lleisiau yn llywio ein gwaith. Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff gofal iechyd ymroddedig ledled Cymru, ein sefydliadau partner sy'n rhannu ein hymrwymiad i wella ac, yn bwysicaf oll, y tîm arbennig yn AGIC. Eich proffesiynoldeb, eich uniondeb, a'ch natur benderfynol chi sy'n ein galluogi i sicrhau effaith.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr adroddiad hwn, ein gwaith, neu'ch profiad o wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, mae croeso i chi gysylltu â ni.

*Alun Jones*

**Prif Weithredwr**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**



02.

# AGIC mewn Niferoedd



# 2024-2025 mewn Niferoedd



**163**
o arolygiadau ar y safle




**1,657**
o arolygon staff wedi'u cwblhau



**3,407**
o arolygon cleifion, teuluoedd/gofalwyr a chyhoeddus wedi'u cwblhau



# 2024

## Ebrill

- 14 o arolygiadauOur
- Ein canfyddiadau o wiriad sicrwydd ar y cyd o'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol yn Rhondda Cynon Taf | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Mai

- 6 o arolygiadau
- Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y Cyd 2024 - 2028 wedi ei chyhoeddi
- Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) yng Nghaerdydd
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredol
- Cyhoeddwyd Adolygiad o Benderfyniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) i Oedolion yng Nghymru
- Angen gwelliant sylweddol mewn cyfleuster iechyd meddwl ym Mhontypridd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Mehefin

- 8 o arolygiadau
- Cyhoeddwyd Bwletin Arsylwi - Mawrth 2024
- Astudiaeth Achos o dan y Chwyddwydr ar Arfer Da - Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru
- Arolygiad yn canfod bod angen gwneud mwy o welliannau yng ngwasanaethau mamolaeth ysbyty mwyaf Caerdydd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Gorffenaff

- 16 o arolygiadau
- Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol mewn ysbyty iechyd meddwl yn yr Wyddgrug | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Arolygiad yn canfod gofal o safon dda mewn ysbyty anhwylderau bwyta yng Nglynebwy | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Mae gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Singleton yn gwella ond mae problemau o hyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Awst

- 9 o arolygiadau
- Mae Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd yn dangos arwyddion o welliant, ond mae heriau o hyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Medi

- 16 o arolygiadau
- Cyhoeddwyd Adroddiad Trosolwg ar Drefniadau Amddiffyn Plant yng Nghymru

## Hydref

- 17 o arolygiadau
- Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol
- Cyhoeddwyd Astudiaeth Achos o Arfer Da - Ysbyty Mamolaeth Bronglais
- Angen gwneud gwelliannau ar unwaith mewn Uned Iechyd Meddwl arbenigol yng Nghaerdydd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Tachwedd

- 14 o arolygiadau
- Cyhoeddwyd Adolygiad ar y Cyd i archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru

## Rhagfyr

- 12 o arolygiadau
- Angen gwella Ward Iechyd Meddwl arbenigol yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Cyhoeddi rhybuddion i ddarparwyr sy'n defnyddio gwasanaethau laser anghofrestredig | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# 2025

## Ionawr

- 18 o arolygiadau
- Adroddiad Blynyddol ar Fonitro Iechyd Meddwl 2023-2024
- Isgyfeirio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Heatherwood Court o fod yn 'Wasanaeth sy'n Peri Pryder' yn Dilyn Gwelliannau | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Arolygiad o Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor yn Dangos Cynnydd a Heriau Parhaus | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Chwefror

- 15 o arolygiadau
- Adroddiad Blynyddol: Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru 2023-2024

## March

- 18 o arolygiadau
- Cyhoeddwyd Bwletin Arsylwi - Mawrth 2025
- Astudiaeth Achos Goleuni ar Arfer Da - Heatherwood Court
- Ymestyn ein Strategaeth: Blwyddyn ar gyfer Cynnydd a Gwelliant Parhaus
- Mae heriau yn parhau o hyd yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Treforys yn Abertawe | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gwelliannau wedi'u nodi, er bod heriau yn parhau ar gyfer Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

03.

# Rheoleiddio Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol



# Cipolwg ar Ein Gweithgarwch y Flwyddyn Hon

Rydym yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys amrywiaeth eang a chynyddol o ofal, o bractisau deintyddol preifat a chlinigau laser cosmetig i ysbytai annibynnol ac unedau iechyd meddwl.

## Sector Amrywiol ac sy'n Esblygu

Mae llawer o wasanaethau yn gweithredu ochr yn ochr â gofal y GIG. Er enghraifft, mae rhai ysbytai annibynnol yn darparu triniaethau i gleifion ag anghenion cymhleth a ariennir gan y GIG, ac mae llawer o bractisau deintyddol yn cynnig cymysgedd o ofal y GIG a gofal preifat. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y gwasanaethau sy'n cynnig triniaethau dewisol fel triniaethau laser, rheoli pwysau, a chymorth menopos.

## Cydbwyso Arloesedd â Diogelwch

O safbwynt AGIC, mae'r sector hwn yn creu cyfleoedd a heriau. Mae darparwyr annibynnol yn aml yn cynnig hyblygrwydd ac arloesedd, a all fod o fudd i gleifion, ond dim ond pan fydd hynny'n cael ei gefnogi gan drefniadau llywodraethu cadarn, atebolrwydd clir, ac ymrwymiad i ansawdd, diogelwch a gwelliant parhaus.

## Ein Rôl fel Rheoleiddiwr

Yn ogystal â nodi risgiau, nod arolygiadau AGIC yw helpu darparwyr i wella. Rydym yn gweithio ac yn rheoleiddio gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn darparu gofal sy'n ddiogel, yn barchus ac yn ymateb i anghenion y bobl.

Wrth i'r sector barhau i dyfu ac arallgyfeirio, erys AGIC yn ymrwymedig i wneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru, ni waeth ble maent yn cael gofal, yn gallu disgwyl cael gofal iechyd diogel, urddasol o ansawdd uchel.

## Uchafbwyntiau Cofrestru

Y flwyddyn hon, gwelsom gynnydd cyson yn nifer y cofrestriadau ledled Cymru, gan adlewyrchu twf parhaus a thirwedd newidiol gwasanaethau iechyd gofal annibynnol.

**280** Cwblhawyd 280 o ddarnau o waith cofrestru

**60** Cofrestrwyd 60 o wasanaethau newydd, gan greu cyfanswm o 750

**20** Datgofrestrwyd 20 o wasanaethau yn ystod y flwyddyn

**517** Cynyddodd nifer y gwasanaethau deintyddol preifat o 504

**110** Cynyddodd nifer y gwasanaethau deintyddol preifat yn unig o 73

- Cynyddodd nifer y gwasanaethau annibynnol ac asiantaethau meddygol o 40 i 56 yn 2024-25 - cynnydd o 40% dros y flwyddyn a chynnydd o 70% ers 2022. Roedd y rhan fwyaf o gofrestriadau newydd ar gyfer gwasanaethau wedi'u harwain gan feddygon annibynnol, gan gynnwys meddygon teulu a darparwyr preifat sy'n cynnig gofal meddygol sy'n canolbwyntio ar lesiant, fel rheoli pwysau, cymorth menopos, meddygaeth chwaraeon, a seiciatreg.
- Cynyddodd nifer y lleoliadau triniaethau esthetig (e.e. Laser/IPL) o 110 i 120, sef cynnydd o 40% dros dair blynedd.
- Mae cyfran y practisau preifat galw heibio sy'n cynnig gwasanaethau'r GIG wedi gostwng o 86% i 80%, gan awgrymu newid tuag at ddarpariaeth breifat yn unig ymhlith rhai darparwyr.
- Cawsom 187 o ymholiadau ffurfiol gan wasanaethau yn gofyn a oedd angen iddynt gofrestru â ni - cynnydd o 58% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Darparwyr neu wasanaethau newydd sydd am ymuno â'r sector gofal iechyd annibynnol sy'n gwneud yr ymholiadau hyn yn aml.

O blith y rheini:

**91**

**roedd yn ofynnol i 91 o wasanaethau gofrestru, gan olygu bod yn rhaid iddynt gyrraedd safonau cyfreithiol cyn cynnig gofal**

**96**

**nid oedd yn ofynnol i 96 gofrestru, yn bennaf am fod y gwasanaeth arfaethedig y tu hwnt i gwmpas y ddeddfwriaeth gyfredol**

Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o ddatgofrestru yn awgrymu bod bwlch posibl yn y gyfraith. Gall rhai gwasanaethau, yn enwedig y rhai sy'n cynnig triniaethau newydd neu arbenigol, beri risgiau i ddiogelwch cleifion o hyd, er nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru yn ôl y gyfraith.

Mae AGIC yn parhau i fonitro'r datblygiadau hyn ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y system yn datblygu yr un mor gyflym â newidiadau yn y sector.

## Newidiadau i'r Ddarpariaeth Iechyd Meddwl

Y flwyddyn hon, gwelwyd newidiadau amlwg mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu annibynnol i gleifion mewnol ledled Cymru. Goruchwyliodd AGIC y broses o ddatgofrestru gwasanaethau Priory, Pentre'r Eglwys, Ysbyty Dewi Sant, ac Ysbyty Annibynnol New Hall. Cafodd y newidiadau hyn eu sbarduno gan y darparwyr eu hunain, a rôl AGIC oedd sicrhau bod y broses ddatgofrestru yn cael ei chwblhau'n ddiogel ac yn unol â'r gofynion rheoliadol.

Ar yr un pryd, cofrestrwyd nifer o gyfleusterau newydd pwysig, gan gynnwys Ysbyty Cefn Carnau yn Ne Cymru, wardiau diogel newydd yn Llys Llanarth yn Sir Fynwy, ac ysbyty newydd sbon, Seren Gobaith yng Ngogledd Cymru.

Mae'r gwasanaethau hyn yn bodoli i ddarparu gofal cymhleth ac arbenigol nad oes gan y GIG y capasiti i'w darparu o bosibl. Mae eu sefydlu a'u cau yn adlewyrchu tirwedd newidiol darpariaeth iechyd meddwl, lle mae capasiti, ansawdd a chynaliadwyedd yn dal i fod yn bryderon allweddol ledled Cymru. Mae AGIC yn parhau i fonitro'r maes hwn yn agos, gan gydnabod natur agored i niwed y bobl y mae'r gwasanaethau hyn yn eu cefnogi a phwysigrwydd cynnal gofal diogel o ansawdd uchel.

Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith mewn lleoliadau iechyd meddwl mewn adran benodol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Gwrando a Gwella

Er mwyn ymateb i adborth gan ddarparwyr, mae AGIC yn datblygu datganiad sefyllfa ar y defnydd o deledu cylch cyfyng mewn lleoliadau iechyd meddwl, gan gydbwyso diogelwch â phreifatrwydd ac urddas cleifion. Egwyddor arweiniol AGIC yw mai dim ond pa fo modd cyfiawnhau defnyddio teledu cylch cyfyng y dylid gwneud hynny, a phan fo hynny'n gymesur, yn parchu hawliau cleifion, ac yn canolbwyntio ar ddiogelu ac atebolrwydd.

Mae ein Tîm Cofrestru wedi gweithio gyda darparwyr i wella'r broses gwneud cais, drwy gyhoeddi dogfennau diwygiedig a symleiddio'r profiad i ymgeiswyr. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2025-26, ac rydym yn croesawu adborth drwy ein "Dweud Eich Dweud ar Ein Proses Gofrestru".



# Ysbytai a Chlinigau Annibynnol

Rydym yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Mae arolygiadau yn rhan allweddol o'n rôl i amddiffyn cleifion a hyrwyddo gofal o ansawdd uchel mewn sector amrywiol sy'n tyfu.

Ein nod yw arolygu ysbytai annibynnol bob dwy flynedd a chlinigau bob tair blynedd, ond efallai y byddwn yn ymweld â nhw'n amlach os caiff pryderon eu codi neu os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd.

Yn 2024-25, gwnaethom gwblhau tri arolygiad o ysbytai annibynnol. Roedd y tri arolygiad yn gadarnhaol, gyda nifer bach iawn o argymhellion ar gyfer gwella. Gwelsom systemau llywodraethu clir ac effeithiol, rheolaethau mewnol ac archwiliadau clinigol cadarn, prosesau cadw cofnodion a gwybodaeth am gleifion da, ac arferion diogel mewn perthynas â meddyginiaethau ac atal heintiau. Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion a staff yn gadarnhaol ar y cyfan, ac yn adlewyrchu diwylliant cryf o ofal ac atebolrwydd.

Gwnaethom hefyd gynnal 13 o arolygiadau o gliniau annibynnol, a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau, yn cynnwys triniaethau colli pwysau, trawsblannu gwallt, enwaedu ac IVF. Roedd y rhan fwyaf o glinigau yn darparu amgylcheddau glân a chroesawgar.

Er bod y safon gyffredinol yn dda, gwnaethom nifer bach o argymhellion cyson, gan gynnwys:

- Gwella argaeledd gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg
- Rhoi gwybodaeth gliriach i gleifion am driniaethau
- Cynnig deunyddiau hybu iechyd cyffredinol
- Mynd i'r afael â mân faterion o ran rheoli meddyginiaethau.

O safbwynt AGIC, mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu sector sy'n perfformio'n dda ar y cyfan, ond y mae angen iddo barhau i ganolbwyntio ar gysondeb, tryloywder a chyfathrebu â chleifion.

Ledled y DU, mae'r sector gofal iechyd annibynnol yn ehangu'n gyflym, yn enwedig mewn meysydd fel gwasanaethau meddygon teulu preifat a thriniaethau cosmetig. Mae'r twf hwn yn cynnig mwy o ddewis i gleifion, ond mae hefyd yn gwneud y sector yn fwy cymhleth. Gall nifer y triniaethau sydd ar gael erbyn hyn, y mae llawer ohonynt yn rhai dewisol, ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd wybod a yw gwasanaeth wedi'i gofrestru'n briodol neu a yw'r person sy'n darparu gofal yn meddu ar y cymwysterau priodol.

Rydym yn annog unrhyw un sy'n chwilio am ofal iechyd annibynnol yng Nghymru i wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y darparwr wedi'i gofrestru ag AGIC
- Darllen ein hadroddiadau arolygu diweddaraf
- Cadarnhau bod y clinigydd y maent wedi ei ddewis yn meddu ar y cymwysterau cywir ar gyfer y driniaeth y mae'n ei chynnig.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn meysydd lle mae rheoleiddio'n dal i ddatblygu. Yn ogystal ag arolygu a rheoleiddio, ein rôl yw helpu'r cyhoeddi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac i gadw'n ddiogel.

## Practisau Deintyddol

Mae gwasanaethau deintyddol yng Nghymru yn parhau i chwarae rôl hollbwysig mewn gofal iechyd cymunedol, ac er bod llawer o bractisau yn perfformio'n dda, mae ein harolygiadau'n dangos bod lle i wella mewn meysydd allweddol. Mae nifer yr argymhellion a natur y materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn dangos pwysigrwydd trefniadau llywodraethu cadarn, hyfforddiant cyson, a gwaith rheoli risg rhagweithiol.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi darparwyr drwy ddull gweithredu cytbwys, gan gyfuno goruchwyliaeth drylwyr â chanllawiau ymarferol. Yn ogystal â nodi risgiau, diben ein harolygiadau yw helpu practisau i ddatrys problemau'n gyflym ac mewn ffordd gynaliadwy. Wrth i dirwedd gofal deintyddol esblygu, yn enwedig wrth i'r galw a'r cymhlethdod gynyddu, mae ein rôl o ran sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd a hyrwyddo gwelliant yn bwysicach nag erioed.

Yn ystod 2024-25, cynhaliodd AGIC **50 o arolygiadau a 23 o ymweliadau cyn cofrestru** o bractisau deintyddol ledled Cymru.

**7**

**Arweiniodd saith arolygiad at gyhoeddi Hysbysiadau Diffyg Cydymffurfio lle roedd diogelwch cleifion yn y fantol, ac roedd yn ofynnol i'r practisau dan sylw ymateb o fewn 7 diwrnod.**

**50**

**O blith y 50 o arolygiadau a gynhaliwyd, canfuwyd bod dau bractis yn cydymffurfio'n llawn, ac ni wnaed unrhyw argymhellion, gan ddangos dealltwriaeth gref o'r gofynion rheoliadol a ffocws clir ar ansawdd.**

**Gwnaethom gyfanswm o bron 600 o argymhellion ar gyfer gwella.**

Cafodd tua **100** o faterion eu datrys ar ddiwrnod yr arolygiad, gan adlewyrchu ein dull cefnogol a chydweithredol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gwella'r gallu i gael gafael ar gyfarpar brys
- Diweddaru gweithdrefnau cwyno
- Arwyddion cliriach ar gyfer yr allanfeydd tân
- Cloi biniau gwastraff clinigol.

Roedd y rhan fwyaf o'r practisau yn lân, mewn cyflwr da, ac yn cynnig amgylchedd cadarnhaol. Cafodd staff eu canmol yn gyson gan gleifion am broffesiynoldeb, gofal urddasol, ac addasiadau a wnaed ar gyfer anableddau. Roedd deunyddiau hybu iechyd yn aml ar gael mewn nifer o ieithoedd ac wedi'u teilwra'n benodol at gymunedau lleol. Nododd staff hefyd eu bod yn gweithio mewn timau cefnogol, a oedd yn cyfrannu at ddiwylliant cryf o wella. Roedd llawer o bractisau yn cynnig oriau estynedig neu'n cydweithio i ddarparu gwasanaeth brys.



## Meysydd Allweddol i'w Gwella Dadansoddiad o bron 600 o argymhellion

### Rheoli Meddyginiaethau

Gwnaethom gyhoeddi dau Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio am risgiau difrifol yn ymwneud â thrin meddyginiaethau:

- Rhoi meddyginiaethau o becynnau wedi'u rhannu heb y pecynnau gwreiddiol, gan olygu bod risg y gellid colli dyddiadau defnyddio a gwybodaeth am ddiogelwch cleifion
- Silindrau ocsigen nad oeddent yn cyrraedd y lefelau diogel nad wedi'u gwasanaethau o fewn y cyfnod gofynnol, gan beri risg mewn argyfyngau.

Roedd materion cyson eraill yn cynnwys y canlynol:

- Meddyginiaethau yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio yn cael eu storio ochr yn ochr â stociau cyfredol
- Diffyg cofnodion gwaredu o fferyllfeydd
- Diffyg gwaith monitro tymereddau oergelloedd.

*Rhaid i bractisau sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio, eu rhoi a'u gwaredu'n ddiogel ac yn unol â'r rheoliadau.*

### Archwiliadau Clinigol a Gwella Ansawdd

Gwelsom ddefnydd anghyson o archwiliadau clinigol mewn practisau.

- Cyhoeddwyd Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio ar gyfer un practis nad oedd yn cynnal unrhyw weithgarwch archwilio o gwbl.

*Dylai pob practis gynnal rhaglen gadarn o archwiliadau clinigol ac anghlinigol i gefnogi gwelliannau parhaus a threfniadau llywodraethu da.*

### Diogelwch Tân

Nododd **tua 50%** o'r arolygiadau bryderon yn ymwneud ag atal tân.

- Cyhoeddwyd hysbysiadau lle nad oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant tân, ymarferion tân rheolaidd, gwaith profi larymau, neu asesiadau risg.

*Rhaid sicrhau bod systemau diogelwch tân sylfaenol ar waith i ddiogelu cleifion a staff.*

## Hyfforddiant ar CPR a Chymorth Cyntaf

Nododd un o bob pedwar arolygiad fylchau o ran parodrwydd am argyfwng.

- Mewn rhai achosion, nid oedd yr un aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar CPR neu gymorth cyntaf, a rhoddwyd camau gorfodi ar waith.

Rhaid i bractisau sicrhau bod nifer digonol o'u staff wedi'u hyfforddi i ymateb i argyfyngau meddygol.

## Diogelwch Pelydr-X

Gwelsom nad oedd rhai practisau yn cofnodi'r cyfiawnhad dros gynnal archwiliad pelydr-X yng nghofnodion y cleifion.

Mae hyn yn un o ofynion cyfreithiol rheoliadau IR(ME)R ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod archwiliadau pelydr-X yn ddiogel a bod angen eu cynnal yn glinigol.

## Atal a Rheoli Heintiau

Nododd 15 o arolygiadau fân faterion, ond rhai pwysig, yn ymwneud â hylendid, gan gynnwys:

- Teils wedi cracio, papur wal yn plicio, ac arwynebau nad oedd modd eu sychu
- Amserlenni glanhau anghyflawn
- Mopiau wedi'u gadael mewn bwcedi a chlustogwaith cadeiriau wedi'i ddifrodi.

Mae cynnal amgylchedd glân a hylan yn hollbwysig er mwyn atal heintiau a chadw cleifion yn ddiogel.



## Hosbisau Annibynnol

Mae hosbisau yn darparu gofal hanfodol i oedolion, pobl ifanc a phlant sydd â salwch terfynol neu gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Yn ystod 2024-25, arolygodd ein timau ddwy hosbis annibynnol, yr oedd un ohonynt yn cefnogi oedolion ac un yn cefnogi plant. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan hollbwysig o ofal iechyd yng Nghymru, gan gynnig gofal clinigol yn ogystal â chymorth emosiynol ac ymarferol i gleifion a'u teuluoedd yn ystod rhai o gyfnodau anoddaf eu bywydau.

Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion a theuluoedd yn gadarnhaol tu hwnt. Cyfeiriodd pobl at staff caredig ac empathetig, gofal wedi'i bersonoli, ac amgylcheddau a oedd yn teimlo'n ddiogel ac yn gefnogol:

Nododd ein harolygwyr safonau uchel o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ynghyd â gwaith tîm amlddisgyblaethol cadarn a dulliau cyfannol o asesu, cynllunio a darparu gofal. Canmolwyd staff am eu gallu i gyfathrebu'n glir ac yn dosturiol, gan sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn deall eu hopsiynau gofal. Dywedwyd bod timau yn angerddol, yn cael eu cefnogi'n dda, ac yn gwbl ymrwymedig i'w rolau.

O safbwynt AGIC, mae'r arolygiadau hyn yn cadarnhau'r rôl eithriadol y mae hosbisau yn ei chwarae yn y system gofal iechyd yng Nghymru. Maent yn dangos sut beth yw gofal tosturiol o ansawdd uchel pan gaiff ei deilwra'n benodol at anghenion unigol a'i ddarparu gan weithwyr proffesiynol ymroddedig. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn gwasanaethau sy'n perfformio'n dda, mae lle i wella bob amser.

Canolbwyntiodd ein hargymhellion ar gryfhau trefniadau llywodraethu a systemau clinigol, gan gynnwys:

- Gwella cysondeb ac ansawdd cofnodion cleifion
- Sicrhau protocolau clir ar gyfer rhagnodi ocsigen
- Diweddaru ac adolygu polisïau allweddol yn rheolaidd.

Yn ogystal â sicrhau diogelwch a chydymffurfiaeth, ein rôl yw cefnogi gwelliant parhaus. Yn achos gofal hosbis, lle mae urddas, empathi ac ymddiriedaeth yn hollbwysig, nod ein harolygiadau yw cynnal y safonau uchaf yn ogystal â chydnabod a dathlu'r gwaith gwych sydd eisoes yn cael ei wneud.

*"Yr awyrgylch, y sylw at fanylder a'r staff diffuant…10 allan o 10."*

*"Maen nhw'n teimlo fel rhan o'r teulu"*

*"Darpariaeth eithriadol, sydd wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar anghenion ein plentyn"*

*"Gofal rhagorol a gwasanaeth o ansawdd. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn empathetig iawn…"*

## Triniaeth gan ddefnyddio laser Dosbarth 3B/4 neu ddyfais Goleuni Pwls Dwys (IPL)

Mae ein cyfrifoldebau rheoleiddio ym maes gofal iechyd annibynnol yn cynnwys cofrestru ac arolygu gwasanaethau sy'n cynnig triniaethau laser a Goleuni Pwls Dwys (IPL). Defnyddir y triniaethau hyn yn aml at ddibenion cosmetig neu ddibenion sy'n gysylltiedig â'r croen, fel gwaredu blew neu drin cyflyrau fel acne neu bigmentiad.

Er ei bod yn glir bod llawer o ddarparwyr yn ymrwymedig i gynnig gwasanaeth da, mae ein harolygiadau yn dangos nad yw rhai yn cydnabod yr amser, y wybodaeth a'r systemau sydd eu hangen i gyrraedd y safonau cyfreithiol sy'n ofynnol i sicrhau diogelwch ac ansawdd gofal.

Rhaid i'r gwasanaethau hyn gydymffurfio â'r rheoliadau penodol sydd â'r nod o leihau risgiau, yn enwedig risg llosgiadau, anafiadau i'r llygaid, neu amgylcheddau trin anniogel. Fel y rheoleiddiwr annibynnol, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn ddiogel, yn cael eu rhedeg yn dda, ac yn parchu urddas pobl.

Yn ystod ein harolygiadau diweddaraf, nodwyd mai ar gyfer darparwyr laser ac IPL y cyhoeddwyd y gyfran fwyaf o Hysbysiadau Diffyg Cydymffurfio ar draws y sector, gyda hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar gyfer 6 o'r 21 o wasanaethau. Rydym yn cymryd camau ar unwaith pan fydd risg i ddiogelwch cleifion ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ymateb o fewn wythnos.

Roedd y pryderon allweddol am ddiogelwch yn cynnwys:

- Hen reolau diogelwch lleol neu ddiffyg rheolau o'r fath yn gyfan gwbl: Disgwylir i ddarparwyr sicrhau bod canllawiau cyfredol ar ddiogelwch laserau ar waith, a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau.
- Cofnodion cleifion anghyflawn: Yn aml, nid oedd cofnodion yn cynnwys manylion pwysig fel nodiadau ymgyngoriadau, gosodiadau'r peiriant laser, neu lofnodion cleifion ac ymarferwyr, sy'n hollbwysig er mwyn darparu gofal diogel a chyson
- Trefniadau diogelwch tân gwan: Roedd diffyg asesiadau risg tân clir, profion larwm tân a gweithdrefnau brys wedi'u dogfennu mewn nifer o wasanaethau.

Gwnaethom hefyd nodi'r canlynol:

- Diffyg protocolau trin neu brotocolau trin nad oeddent yn cydymffurfio
- Darparwyr yn defnyddio peiriannau laser nad oeddent wedi'u rhestru ar eu cofrestriad
- Profion PAT heb eu cynnal ar ddyfeisiau trydanol
- Staff nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf neu graidd gwybodaeth diweddaraf
- Polisïau a gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n wael.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos, er bod triniaethau yn ymddangos yn rhai risg isel o bosibl, bod trefniadau llywodraethu, hyfforddiant a phrosesau goruchwylio priodol yn hanfodol. Mae AGIC yn ymrwymedig i ddwyn gwasanaethau i gyfrif a helpu darparwyr i ddeall eu cyfrifoldebau, am fod pawb yng Nghymru yn haeddu cael gofal diogel o ansawdd uchel, boed hynny gan y GIG neu ddarparwyr annibynnol.



04.

# Gweithredu drwy Uwchgyfeirio a Gorfodi

# Cipolwg ar Ein Gweithgarwch y Flwyddyn Hon

Mae'r tîm Uwchgyfeirio a Gorfodi yn arwain ein hymateb i risgiau difrifol ym mhob rhan o wasanaethau'r GIG, gofal iechyd annibynnol a deintyddiaeth breifat yng Nghymru. Gall AGIC ddefnyddio ei phwerau sifil o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 i orfodi gwasanaethau cofrestredig i weithredu pan fo angen. Ymhlith y camau gweithredu mae atal gwasanaethau, dynodi darparwyr yn Wasanaethau sy'n Peri Pryder, a chychwyn ymchwiliadau troseddol lle y gellir gwarantu hynny.

Llwybr uwchgyfeirio ffurfiol yw'r broses ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder, a roddir ar waith pan fydd gwasanaeth yn peri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion neu'n methu â chyrraedd safonau rheoliadol. Fe'i defnyddir ar gyfer gofal iechyd annibynnol a gwasanaethau'r GIG. Mae'n cynnwys cyfarfodydd strwythuredig a gwaith monitro wedi'i dargedu, ac mae'n galluogi AGIC i gymryd camau penodol i ysgogi gwelliannau cyflym neu, lle bo angen ym maes gofal iechyd annibynnol, atal gweithrediadau er mwyn diogelu'r cyhoedd. Yn achos gwasanaethau'r GIG, gall y broses arwain at gymhwyso dynodiad Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol.

Er na chafodd yr un o wasanaethau'r GIG eu dynodi'n Wasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol y flwyddyn hon, cafodd nifer o wasanaethau'r GIG eu hystyried a'u rheoli drwy'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder. Llywiodd hyn gamau gweithredu a phenderfyniadau penodol i wella diogelwch ac ansawdd.

Yn ystod 2024-25, ymatebodd y tîm i amrywiaeth o faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio, yn enwedig mewn gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau laser esthetig, drwy arolygiadau penodol, camau gorfodi brys, ac ymyriadau cydweithredol. Cafodd nifer o achosion troseddol eu huwchgyfeirio at Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, a pharhaodd AGIC i oruchwylio gwasanaethau risg uchel y GIG, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ac adrannau achosion brys.

Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar y gred y dylai penderfyniadau i uwchgyfeirio gwasanaeth fod yn gymesur ac yn bendant. Er ein bod yn cymryd camau cadarn lle nad yw gofal yn cyrraedd y safonau, rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr a chyrff y GIG i gefnogi gwelliannau a sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel, yn atebol, ac yn canolbwyntio ar anghenion y bobl y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r cydbwysedd hwn rhwng uwchgyfeirio a chefnogi yn ganolog i'n rôl o ran amddiffyn cleifion a gwella safonau ym mhob rhan o system gofal iechyd Cymru.



## Ffigurau a Themâu Allweddol

### Gweithgarwch Uwchgyfeirio - Byrddau Iechyd y GIG

**26** Cynhaliwyd 26 o gyfarfodydd Llwybr Gwasanaeth sy'n Peri Gofid i lywio camau gwella yng ngwasanaethau'r GIG

### Gofal Iechyd Annibynnol - Dynodiadau Gwasanaeth y'n Peri Pryder

**8** Estheteg Laser: 8 o ddynodiadau Gwasanaeth sy'n Peri Pryder

**6** Deintyddiaeth Breifat: 6 o ddynodiadau Gwasanaeth sy'n Peri Pryder

**3** Iechyd Meddwl: 3 o ddynodiadau Gwasanaeth sy'n Peri Pryder

### 13 Tueddiadau Isgyfeirio

**5** Iechyd Meddwl

**4** Estheteg Lase

**4** Deintyddiaeth Breifat

### Cyfarfodydd Llwybr Gwasanaeth sy'n Peri Pryder

**46** Iechyd Meddwl:46 o gyfarfodydd

**39** Deintyddiaeth Breifat:39 o gyfarfodydd

**24** Estheteg Laser: 24 o gyfarfodydd

### Uchafbwyntiau Gorfodi

**3** Cyhoeddwyd 3 Rhybuddiad Troseddol:

**2** yn Ne-ddwyrain Cymru (Tachwedd 2024, yn erbyn pedwar unigolyn)

**1** yng Ngorllewin Cymru (Ebrill 2025)

Practis Deintyddol yng Nghanolbarth Cymru: Cafodd y practis ei atal am nad oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf, nid oedd y cyfarpar yn ddiogel, ac nid oedd ganddo unrhyw yswiriant indemniad.

*Darparwr Laser yng Ngogledd Cymru: Cafodd y darparwr ei atal am ei fod yn defnyddio peiriant laser heb ei gofrestru ac am fod polisïau ar goll.*

### Darparwyr Anghofrestredig ac Ymchwiliadau Troseddol

**3** ymchwiliad troseddol bob mis i wasanaethau esthetig anghofrestredig

*Monitro 6-8 o ddarparwyr anghofrestredig yn barhaus yn fisol*

# Astudiaeth Achos: Goruchwyliaeth Reoleiddiol mewn Gwasanaethau Deintyddol

Roedd gan bractis deintyddol yng Nghanolbarth Cymru, a weithredwyd gan un ymarferydd, hanes hirsefydlog o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau, gyda phryderon wedi'u nodi am y tro cyntaf mor bell yn ôl â 2015. Dros y blynyddoedd, roedd AGIC wedi rhoi arweiniad a chyfleoedd iddo wella. Fodd bynnag, erbyn dechrau 2025, roedd materion cyson yn dal i fod heb eu datrys, a gwnaethom benderfynu uwchgyfeirio ein hymateb rheoleiddio.

## Camau Gweithredu Cychwynnol - Mawrth 2025

Ym mis Mawrth 2025, cynhaliodd AGIC arolygiad o'r practis yn dilyn pryderon parhaus. Nododd yr arolygiad risgiau difrifol i ddiogelwch cleifion, gan gynnwys:

- Meddyginiaethau brys yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio
- Cyfarpar pelydr-X diffygiol
- Cywasgydd ac awtoclaf heb eu gwasanaethu
- Hyfforddiant staff anghyflawn
- Diffyg gwiriadau diogelwch tân.

Oherwydd difrifoldeb y materion hyn, cyhoeddodd AGIC **Hysbysiad o Benderfyniad** o dan **Ddeddf Safonau Gofal 2000**, a oedd yn atal y gwasanaeth dros dro. Mae Hysbysiad o Benderfyniad yn gam cyfreithiol ffurfiol a gymerir pan fydd darparwr yn methu â chyrraedd safonau diogelwch ac ansawdd hanfodol. Gwnaethom hefyd hysbysu cyrff perthnasol, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd lleol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Gwasanaeth Tân ac Achub, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## Gwaith Dilynol - Mawrth 2025

Dangosodd ymweliad dilynol yn ddiweddarach y mis hwnnw gynnydd cyfyngedig:

- Roedd yr hyfforddiant ar CPR a'r cyfarpar brys yn dal i fod yn annigonol
- Mynegodd y staff bryderon am hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau rheoleiddio.

O ganlyniad, estynnwyd y cyfnod atal er mwyn rhoi mwy o amser i'r gwasanaeth wella.

## Gwella ac Isgyfeirio - Ebrill 2025

Erbyn mis Ebrill, cyflwynodd y darparwr dystiolaeth o'r canlynol:

- Cyfarpar newydd a brynwyd
- Hyfforddiant staff a gwblhawyd
- Gweithdrefnau a dogfennau gwell.

Er bod rhai materion yn bodoli o hyd, ystyriwyd bod lefel yxrisg gyffredinol yn dderbyniol. Daethpwyd â'r cyfnod atal i ben a chafodd yr achos ei isgyfeirio o statws **Gwasanaeth sy'n Peri Pryder**. Mae tîm arolygu AGIC yn parhau i fonitro'r practis er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

## Gwersi Allweddol a Ddysgwyd

- **Rheoleiddio yn seiliedig ar risg:** Cafodd y camau gorfodi eu cydbwyso â chymorth i ysgogi gwelliannau ystyrlon.
- **Goruchwyliaeth gydweithredol:** Drwy gydweithio â chyrff allanol, llwyddwyd i sicrhau ymateb cadarn a chydgysylltiedig.
- **Uwchgyfeirio strwythuredig:** Roedd y broses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn golygu bod modd ymyrryd mewn ffordd amserol a sicrhau atebolrwydd clir.
- **Penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth:** Roedd dogfennaeth a thryloywder yn hollbwysig i gyflawni canlyniadau rheoleiddio.



05.

# Asesu Ansawdd a Diogelwch Gofal y GIG




## Cipolwg ar Ein Gweithgarwch y Flwyddyn Hon

Mae'r GIG yn parhau i wynebu pwysau dwys a chymhleth, o alw cynyddol ac oedi o ran llif cleifion i brinder gweithwyr a heriau o ran seilwaith. Rydym yn gweld effaith y pwysau hyn bob dydd, ond rydym hefyd yn gweld ymrwymiad eithriadol staff, gwydnwch timau, a'r angen brys i wella'r system gyfan er mwyn sicrhau gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yn ystod 2024-25, parhaodd Tîm Sicrwydd y GIG i chwarae rôl hollbwysig o ran ysgogi gwelliannau i ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru. Drwy gyfuniad o arolygiadau, adolygiadau, a gwaith dilynol, gwnaethom gynnig sicrwydd annibynnol anodi cyfleoedd i wella mewn amrywiaeth eang o leoliadau.

Gwnaethom gynnal 55 o arolygiadau mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac ysbyty, a dod â thri adolygiad cenedlaethol ac ar y cyd i ben, wrth i waith dilynol pellach fynd rhagddo.



Gwnaethom hefyd gyhoeddi tri adolygiad mawr a chwblhau gwaith dilynol ar dri arall:

**Adolygiadau a Gyhoeddwyd:**

- Adolygiad o Benderfyniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) i Oedolion yng Nghymru
- Adolygiad ar y Cyd: Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru
- Adroddiad Trosolwg: Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) 2019-2024

**Gwaith Dilynol:**

- Adolygiad Cyflym ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant
- Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion (Llwybr Strôc)
- Adolygiad Cenedlaethol o Atal Argyfwng Iechyd Meddwl yn y Gymuned.

## Yr hyn a Nodwyd Gennym: Themâu a Gwybodaeth Allweddol

### Practisau Cyffredinol: Gofal Tosturiol, ond Bylchau mewn Trefniadau Llywodraethu

Canfu ein harolygiadau fod profiad cleifion yn y rhan fwyaf o bractisau meddygon teulu yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda chleifion yn nodi'n gyson eu bod wedi cael eu trin ag urddas, parch a thosturi. Er bod y gallu i gael apwyntiadau yn dda fel arfer, nodwyd pryderon mynych am y gallu i gysylltu dros y ffôn a diffyg preifatrwydd mewn derbynfeydd. Roedd ymdrechion i hybu iechyd yn amrywio'n sylweddol rhwng practisau, gyda diffyg deunyddiau gweladwy neu adnoddau dwyieithog mewn rhai, a allai effeithio ar ddiddordeb a dealltwriaeth cleifion.

O ran gofal diogel ac effeithiol, nodwyd bod yr amgylcheddau clinigol yn lân ac mewn cyflwr da drwyddi draw. Roedd cyfarpar brys ar gael fel arfer; ond roedd amlder y gwiriadau a hwylustod y cyfarpar yn amrywio rhwng practisau. Un pryder a nodwyd oedd y bylchau cyffredin mewn hyfforddiant ar atal heintiau a diogelu, yn enwedig ymhlith staff anghlinigol.

At hynny, roedd materion o ran dogfennaeth yn amlwg, gan gynnwys diffyg llwybrau archwilio, hen bolisïau, ac asesiadau risg anghyflawn, y gallai pob un ohonynt effeithio ar ansawdd a diogelwch gofal.

Roedd yr arweinwyr a'r rheolwyr yn y practisau yn aml yn dda, gyda sawl un ohonynt yn dangos arweinyddiaeth effeithiol ac yn meithrin amgylcheddau tîm cydweithredol. Roedd strwythurau llywodraethu ar waith ar y cyfan, ond roedd materion cyson yn ymwneud â rheoli fersiynau polisïau a chofnodion staff anghyflawn. Ymhlith yr argymhellion cyffredin roedd gwella cynlluniau parhad busnes a sicrhau bod polisïau wedi'u teilwra'n benodol ar anghenion penodol pob practis.

Rydym yn parhau i annog byrddau iechyd i gryfhau eu systemau cymorth a sicrwydd ar gyfer practisau meddygon teulu, gan sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu, bod gwelliannau'n cael eu cynnal, a bod safonau'n cael eu cyrraedd yn gyson ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol.

**Adrannau Achosion Brys: Gofal Rheng Flaen Dan Bwysau**

Mae arolygiadau AGIC o adrannau achosion brys yn rhan bwysig o'i rhaglen waith gyffredinol, sy'n cynnig gwybodaeth annibynnol am ansawdd, diogelwch a phrofiad yn yr adrannau prysur hyn. Yn aml, mewn adrannau achosion brys y gwelir symptomau pwysau ehangach ar y system, fel llif cleifion, prosesau rhyddhau, a mynediad at ofal cymunedol. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru, Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn targedu llawer o achosion sylfaenol yr heriau hyn, gan gynyddu'r gallu i gael gofal brys ar yr un diwrnod, gwella prosesau rhyddhau, a chefnogi athroniaeth gartref yn gyntaf. Er ei bod yn galonogol gweld bod darpariaeth gofal brys yn cael ei had-drefnu, erys y galw gan gleifion yn uchel, ac mae hyn yn aml yn effeithio ar brofiad cleifion sy'n mynd i adran achosion brys.

Yn ystod 2024-25, arolygodd AGIC bedair adran achosion brys: Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Wrecsam Maelor, Ysbyty Treforys, ac Ysbyty Athrofaol y Faenor. Canfu'r arolygiadau hyn fod ardaloedd gorlawn, amseroedd aros hir, a darparu gofal mewn coridorau yn dal i fod yn gyffredin ym maes gofal brys.

Er gwaethaf yr heriau hyn, cafodd y staff eu canmol yn gyson am eu proffesiynoldeb, eu gwydnwch, a'u hymrwymiad i ofal cleifion. Fodd bynnag, mae pryderon yn bodoli o hyd mewn perthynas ag asesiadau risg anghyson, rheoli meddyginiaethau, a diogelwch amgylcheddau ar gyfer cleifion agored i niwed. Er bod arweinyddiaeth leol adrannau achosion brys yn aml yn effeithiol, nododd staff yn gyson eu bod yn teimlo bod diffyg cysylltiad rhyngddynt ag uwch-benderfynwyr.

Roedd amgylcheddau ffisegol yn aml yn anaddas at y diben, ac er bod arferion rheoli heintiau ar waith yn gyffredinol, nid oedd cyfleusterau digonol i'w cefnogi bob amser. Mewn rhai adrannau, gwelsom arwyddion cynnydd, gan gynnwys prosesau brysbennu gwell a llai o ddibyniaeth ar staff asiantaeth, ond gwelliannau unigryw oedd y rhain yn aml, yn hytrach na datrysiadau system gyfan.

Mae buddsoddiad parhaus, atebolrwydd clir, ac arweinyddiaeth weladwy yn hanfodol i leihau pwysau, diogelu llesiant staff, a sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel ac amserol. Bydd AGIC yn parhau i arolygu gofal brys ledled Cymru, gan dynnu sylw at risgiau, rhannu gwersi a ddysgwyd, a chefnogi gwelliannau lle mae eu hangen fwyaf.

**Gwasanaethau Mamolaeth: Gofal Tosturiol, Pryderon Parhaus**

Nododd ein harolygiadau o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru ofal tosturiol yn ogystal â heriau gweithredol parhaus.

Cafodd staff mewn gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Treforys, Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Gwynedd eu canmol am ddarparu gofal caredig a pharchus a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a nododd llawer o fenywod a'u teuluoedd lefelau uchel o foddhad â'u profiadau. Er gwaethaf y datganiadau cadarnhaol hyn, nodwyd pwysau o ran staffio a phryderon am gymysgedd sgiliau yn gyson, yn enwedig mewn ardaloedd aciwtedd uchel, fel Unedau Asesu Cynenedigol ac Unedau Gofal Trosiannol. Cafodd y ddibyniaeth ar staff asiantaeth, a bylchau mewn cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, yn enwedig ymhlith staff obstetrig, eu nodi'n heriau parhaus hefyd.

Gwelwyd gwelliannau i strwythurau arwain a llywodraethu, gyda phenodiadau newydd a llinellau atebolrwydd cliriach. Fodd bynnag, mae materion yn bodoli o hyd mewn perthynas â rolau arwain dros dro, prosesau cyfyngedig i'r staff roi adborth, ac anghysondeb rhwng safleoedd o ran pa mor weladwy yw arweinwyr.

O ran diogelwch ac effeithiolrwydd clinigol, dangosodd y rhan fwyaf o'r unedau brosesau diogelu a rheoli digwyddiadau cadarn. Fodd bynnag, codwyd pryderon yn ymwneud ag arferion trosglwyddo meddygol, y gallu i gael gafael ar gyfarpar hanfodol, dogfennu cydsyniad ar sail gwybodaeth, a goruchwylio a defnyddio theatrau obstetrig.

Daeth hyfforddiant a datblygiad i'r amlwg fel maes allweddol a oedd yn peri risg, gyda chyfraddau cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant gorfodol ymhlith staff meddygol. Roedd rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn meysydd fel hyfforddiant ar amrywiaeth a chydraddoldeb, ac roedd enghreifftiau o ddulliau arloesol o rannu gwersi a ddysgwyd. Ar y cyfan, dywedwyd bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau clinigol yn lân, yn dawel, ac yn groesawgar, a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i greu awyrgylch 'cartref oddi cartref'. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chyfleusterau profedigaeth, arwyddion dwyieithog, ac argaeledd deunyddiau wedi'u cyfieithu er mwyn sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Er ein bod yn croesawu ymdrechion i rannu gwersi a ddysgwyd a gwella arferion, rhaid i'r camau hyn arwain at ofal cyson a theg.

## Sicrhau'r Defnydd Diogel o Ymbelydredd Ïoneiddio ym maes Gofal Iechyd

Mae ymbelydredd ïoneiddio yn chwarae rôl hanfodol mewn gofal iechyd modern. Fe'i defnyddir ar gyfer y canlynol:

- Delweddu diagnostig - fel archwiliadau pelydr-X a sganiau CT i edrych ar strwythurau mewnol
- Radiotherapi - i drin cyflyrau fel canser
- Meddygaeth niwclear - sy'n defnyddio symiau bach o ddeunydd ymbelydrol i ganfod neu drin amrywiaeth o gyflyrau.

Oherwydd bod y triniaethau hyn yn cynnwys cysylltiad ag ymbelydredd, rhaid iddynt gael eu rheoli'n ofalus er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Dyma lle mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, neu IR(ME)R, yn berthnasol. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi gofynion cyfreithiol o ran y ffordd y defnyddir ymbelydredd mewn lleoliadau meddygol, gan gynnwys pwy all wneud tasgau penodol, sut y rhoddir gwybod i gleifion, a sut y caiff diogelwch ei fonitro.

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth ag IR(ME)R yng Nghymru. Bob blwyddyn, rydym yn arolygu tua wyth lleoliad gofal iechyd annibynnol neu'r GIG sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Cyhoeddir yr arolygiadau hyn 12 wythnos ymlaen llaw ac maent y cynnwys hunanasesiad gan y darparwr. Mae hyn yn galluogi ein timau arolygu, wedi'u cefnogi gan arbenigwyr technegol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, i ganolbwyntio ar yr amgylchedd ffisegol ac arferion byd go iawn yn ystod yr ymweliad.

Fel rhan o'i rhaglen i asesu cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R), gwnaethom ofyn i'r Grŵp Cysylltiadau Meddygol yn Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) gynnal adolygiad o hysbysiadau am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol a gyflwynir iddo. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.



### Yr Hyn a Nodwyd Gennym yn ystod 2024-25

Ym mis Hydref 2024, daeth rheoliadau IR(ME)R diwygiedig i rym. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu datblygiadau mewn technoleg ac maent yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelwch cleifion, hyfforddiant staff, ac ymchwilio i Gysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol Arwyddocaol.


Mae ein harolygiadau ers i'r newidiadau ddod i rym yn dangos bod y rhan fwyaf o wasanaethau yn gweithio i ddiweddaru eu polisïau a'u gweithdrefnau. Gwnaethom gyfarfod â thimau ymrwymedig profiadol a ddangosodd waith tîm da a dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol tu hwnt, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu, ac yn cael y wybodaeth berthnasol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella a oedd yn codi'n fynych hefyd:

- Gweithdrefnau'r Cyflogwr: Roedd y dogfennau hyn, sy'n rhoi canllaw i'r staff ar sut i gwblhau tasgau'n ddiogel, weithiau'n aneglur neu nid oeddent yn adlewyrchu'r ymarfer gwirioneddol. Gall hyn greu risgiau, yn enwedig i staff newydd neu dros dro
- Lefelau Cyfeirio Diagnostig: Nid oedd y rhain bob amser wedi'u diffinio'n glir neu eu hadolygu'n rheolaidd ac, weithiau, roedd diffyg camau gweithredu ar gyfer dosau a oedd uwchlaw'r trothwyon
- Holi ynghylch beichiogrwydd: Nid oedd y gweithdrefnau ar gyfer cadarnhau a allai cleifion fod yn feichiog bob amser yn cyfateb i'r hyn yr oedd staff yn ei wneud mewn gwirionedd
- Prosesau yn ymwneud â hawliau: Mae'r rhain yn diffinio pwy all wneud tasgau penodol o dan IR(ME)R. Mewn rhai achosion, nid oedd y rolau hyn wedi'u dogfennu neu eu cyfleu'n glir
- Archwiliadau clinigol: Er bod archwiliadau yn hanfodol i ddysgu a gwella, gwelsom nad oedd gan rai gwasanaethau gynlluniau clir ar gyfer pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau neu sut y byddent yn mynd ar drywydd canfyddiadau. Dywedodd staff wrthym hefyd fod pwysau o ran amser yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau'r holl archwiliadau gofynnol.

Mae'r canfyddiadau hynny nid yn unig yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod arferion diogel ar waith, ond hefyd eu bod yn cael eu dogfennu'n glir, eu cymhwyso'n gyson, a'u hategu gan drefniadau llywodraethu cadarn. Ein rôl ni yw rhoi sicrwydd bod gwasanaethau yn cyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol ac yn cefnogi darparwyr i wella ac ymgorffori arferion gorau.






## Bwrw Golwg Manylach: Astudiaeth Achos IR(ME)R

Yn ystod 2024-25, gwnaethom arolygu safle gwasanaeth sgrinio diagnostig a chanfod, er bod cleifion yn fodlon ar eu gofal, nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr â rheoliadau IR(ME)R. Ni chawsom sicrwydd bod gan y darparwr y fframwaith angenrheidiol drwy weithdrefnau ysgrifenedig, protocolau a rhaglenni sicrhau ansawdd i'r staff gyflawni eu rolau'n ddiogel.

O ganlyniad, cyhoeddodd AGIC Hysbysiad Gwella o dan Adran 21 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974. Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth yn gadarnhaol gan gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion. Gwnaethom gyfarfod â'r Prif Weithredwr ac uwch-aelodau o'r staff i adolygu cynnydd, a chafodd yr hysbysiad ei ddiddymu ym mis Rhagfyr 2024.

Mae'r achos hwn yn dangos ymrwymiad AGIC i ddefnyddio ein pwerau gorfodi mewn modd cymesur ac adeiladol. Pan fydd pryderon difrifol yn codi, rydym yn cymryd camau pendant i amddiffyn cleifion, ond rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr i gefnogi gwelliannau a sicrhau cydymffurfiaeth hirdymor.






## Sicrhau Effaith Drwy Adolygiadau

Rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o adolygiadau cenedlaethol ac adroddiadau eraill bob blwyddyn.

Mae adolygiadau cenedlaethol yn ein helpu i werthuso sut mae gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yn cael eu darparu.

Yn ystod 2024-25, aeth ein rhaglen adolygu i'r afael â rhai o'r meysydd gofal mwyaf sensitif a chymhleth, gan ganolbwyntio ar gysondeb, cydweithredu, a thosturi.





**Adolygiad o Benderfyniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) i Oedolion yng Nghymru**

Nododd ein Hadolygiad o Benderfyniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) nifer o feysydd allweddol i'w gwella a phennodd ddisgwyliadau clir i gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mwy cyson mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru.

Gwnaethom nodi enghreifftiau calonogol o ymarfer da, gan gynnwys rhesymu clinigol clir, cyfathrebu tosturiol, a dogfennaeth ystyriol mewn llawer o achosion. Dangosodd staff ymrwymiad clir i gefnogi cleifion ag urddas a pharch, a dangosodd rhai gwasanaethau sut y gellir cynnal trafodaethau da am benderfyniadau DNACPR mewn modd amserol.

Fodd bynnag, nododd ein gwaith hefyd anghysondeb o ran ansawdd dogfennaeth, gyda diffyg cyfiawnhad clinigol digonol neu dystiolaeth o ymgysylltu ystyrlon â chleifion yn achos llawer o benderfyniadau DNACPR. Roedd cyfathrebu â chleifion a theuluoedd yn aml yn anghyson, a nododd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hyder cyfyngedig i gynnal y trafodaethau sensitif hyn. At hynny, nid oedd sylw'n cael ei roi i ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth fel mater o drefn, er enghraifft anghenion iaith, gallu gwybyddol, a chyd-destun diwylliannol.

Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, a Llywodraeth Cymru weithredu ar y canfyddiadau hyn drwy wella safonau dogfennaeth, gwella hyfforddiant staff, a sicrhau bod penderfyniadau DNACPR yn cael eu cyfleu'n glir, gyda thosturi a pharch. Mae ein canfyddiadau eisoes wedi helpu i lywio'r adolygiad o'r polisi DNACPR cenedlaethol, a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd er mwy sicrhau ymarfer cyson a moesegol gadarn ledled Cymru.





**Adolygiad ar y Cyd: Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru?**

Fel rhan o'n hadolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn yn 2024, gwnaethom ganfod nad oedd llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cymorth iechyd meddwl sydd ei angen arnynt, pan fo hynny'n briodol. Dywedodd dros hanner yr unigolion 11-16 oed nad oeddent yn gwybod ble i droi am help, a dim ond mewn argyfwng roedd llawer ohonynt wedi cael cymorth. Er bod ymyriadau cynnar drwy ysgolion a gwasanaethau cymunedol wedi gwella, erys mynediad yn anghyson, yn enwedig i blant ag anghenion cymhleth, fel y rheini sy'n niwroamrywiol neu sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd gwasanaethau arbenigol fel CAMHS yn cynnig asesiadau cychwynnol yn gynt, ond roedd diffyg gofal dilynol yn aml, ac roedd y meini prawf cymhwysedd yn amrywio'n fawr. Roedd plant sy'n siarad Cymraeg hefyd yn wynebu rhwystrau i gael gwasanaethau yn eu dewis iaith. Roedd gwasanaethau argyfwng newydd yn helpu, ond roedd y galw'n uchel.

Rydym yn disgwyl i wasanaethau ledled Cymru weithio mewn ffordd fwy cydweithredol i wella mynediad, cysondeb a chydlyniant wrth gefnogi iechyd meddwl plant. Rydym yn galw am feini prawf cymhwysedd cliriach, cyfathrebu gwell rhwng asiantaethau, a buddsoddiad cynaliadwy mewn cymorth cynnar a chymorth mewn argyfwng. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn i lywio gwaith monitro a gwella ansawdd yn y dyfodol, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi ac ysgogi newidiadau i'r system gyfan sy'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arno.






**Adroddiad Trosolwg: Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) 2019-2024**


Gwerthusodd y rhaglen pum mlynedd o waith JICPA, a gynhaliwyd rhwng 2019 a 2024, effeithiolrwydd y trefniadau amlddisgyblaethol ar gyfer diogelu plant yng Nghymru.
Canfu'r arolygiadau fod cysylltiad agos rhwng amddiffyn plant yn effeithiol a chydweithredu amlasiantaethol cadarn, yn enwedig lle mae timau wedi'u cyd-leoli a phrosesau integredig ar waith.

Er bod yr arweinwyr ar draws asiantaethau yn wybodus ac yn ymrwymedig ar y cyfan, roedd diffyg model ymyrryd wedi'i ddiffinio'n glir a'i gymhwyso'n gyson mewn rhai ardaloedd yn cyfyngu ar gydlyniant ymarfer diogelu. Roedd ansefydlogrwydd y gweithlu, gan gynnwys dibyniaeth ar staff dros dro, yn her barhaus, ac yn tanseilio parhad gofal a'r gallu i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phlant a theuluoedd.

Roedd ymyriadau cynnar yn fwyaf effeithiol lle roedd llwybrau atgyfeirio wedi'u sefydlu'n glir a lle roedd dealltwriaeth gyffredin o'r trothwyon ar gyfer gweithredu. Er bod ymwybyddiaeth o achosion o gamfanteisio troseddol a chyd-destunol wedi gwella, mae ymgorffori arbenigedd yn gyson yn dal i fod yn faes i'w ddatblygu. Nododd plant a theuluoedd brofiadau mwy cadarnhaol lle roedd gweithwyr proffesiynol yn dangos parhad, yn gwrando'n astud, ac yn defnyddio dull seiliedig ar gydberthnasau. Er bod amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael, roedd amrywiadau o ran mynediad a chydlyniant yn amlwg.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym ni a'n partneriaid yn disgwyl i bartneriaid diogelu gryfhau'r trefniadau cydweithio. Dylai hyn gynnwys ymgorffori modelau ymarfer cyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth, buddsoddi yn sefydlogrwydd a gallu'r gweithlu, a sicrhau bod lleisiau a phrofiadau plant a theuluoedd yn ganolog i'r holl weithgarwch diogelu. Erys AGIC yn ymrwymedig i gefnogi a herio gwasanaethau i wella.






**JICPA: Cyngor Sir Penfro**

Dangosodd ein harolygiad JICPA yn Sir Benfro gynnydd sydyn mewn gweithgarwch amddiffyn plant, wrth i nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ddyblu rhwng mis Mawrth 2023 a mis Chwefror 2025 a nifer y plant â phrofiad o fod mewn gofal gynyddu'n sylweddol.

Er gwaethaf pwysau ariannol ac atgyfeiriadau cymhleth, dangosodd asiantaethau partner ymrwymiad cryf, gyda gwelliannau amlwg ym maes addysg a phlismona. Fodd bynnag, nodwyd cyfathrebu anghyson, diffyg cofnodion iechyd pwysig, ac oedi cyn asesu iechyd. Nid oedd y broses o roi fframwaith Arwyddion Diogelwch ar waith yn ddigon clir, ac nid oedd canlyniadau mesuradwy. Roedd heriau o ran y gweithlu wedi effeithio ar forâl a darpariaeth gwasanaethau hefyd.

O ganlyniad i'r gwaith, gwnaethom alw am gyfathrebu gwell rhwng asiantaethau, gwaith cynllunio amddiffyn plant gwell, a mwy o sylw i lesiant y gweithlu. Mae angen arweinyddiaeth gryfach hefyd er mwyn ysgogi gwelliant parhaus, ynghyd â threfniadau llywodraethu a monitro perfformiad cadarn. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant gweladwy a bydd yr arolygiaethau yn monitro cynnydd yn agos.






## Gwaith Dilynol: Adolygiad Cenedlaethol o Atal Argyfwng Iechyd Meddwl yn y Gymuned

Ddwy flynedd ar ôl i ni gynnal ein hadolygiad cenedlaethol, gwnaethom gynnal adolygiad dilynol gyda byrddau iechyd i asesu cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gwella. Gwnaethom nodi gwelliannau o ran mynediad at ofal sylfaenol, ymgysylltu â sefydliadau yn y trydydd sector, ac integreiddio timau argyfwng iechyd meddwl mewn gwasanaethau brys.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, nid yw rhai camau gweithredu wedi'u cwblhau. Ymhlith y meysydd allweddol y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt mae cynnal asesiadau iechyd corfforol, gwella'r cyfathrebu rhwng meddygon teulu a byrddau iechyd, ac atgyfnerthu cysylltiadau'r gwasanaeth er mwyn sicrhau mynediad gwell at gymorth iechyd meddwl.

Rhaid i wasanaethau gael eu teilwra at anghenion unigol, gyda chydweithredu gwell ar draws sectorau a phwyntiau mynediad cliriach a mwy cyson. Rhaid cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cymorth sydd ar gael, yn enwedig ymhlith dynion sy'n wynebu risg uchel o gyflawni hunanladdiad. Mae ymdrechion ac ymgysylltu parhaus yn allweddol i fynd i'r afael â bylchau pwysig a sicrhau cymorth iechyd meddwl effeithiol ledled Cymru. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â byrddau iechyd drwy ein gwaith sicrwydd parhaus er mwyn cwblhau unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill.





**Gwaith Dilynol: Adolygiad Cyflym ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant**

Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Cyflym ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant ledled Cymru, mae AGIC wedi parhau i weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn i fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Roedd yr adolygiad gwreiddiol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gyfres farwolaethau plant trasig, yn asesu a oedd enwau plant yn cael eu hychwanegu'n briodol at y Gofrestr Amddiffyn Plant neu eu tynnu oddi arni.

Dechreuodd ein rhaglen o waith dilynol ar gyfer yr adolygiad hwn yn gynnar yn 2025, ond bydd yn parhau tan yr hydref 2025. Yn ystod y camau cynnar, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar y ffordd y mae asiantaethau yn ymateb i faterion allweddol a nodwyd yn yr adolygid, gan gynnwys prosesau rhannu gwybodaeth anghyson, ansefydlogrwydd y gweithlu, a diffyg llwyfan TG canolog i gefnogi penderfyniadau diogelu. Rydym hefyd wedi olrhain cynnydd o ran ymgorffori llais y plentyn wrth wneud penderfyniadau a sicrhau hyfforddiant amlasiantaethol rheolaidd i hyrwyddo cysondeb o ran trothwyon a gweithdrefnau diogelu.

Er bod nifer o feysydd o ymarfer da wedi'u nodi, erys heriai o ran sicrhau cysondeb ledled Cymru. Felly, mae'r gwaith dilynol a wnaed hyd yma wedi canolbwyntio ar gyfres o drafodaethau â byrddau diogelu rhanbarthol am y gwelliannau a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad ym mhob maes sy'n gyfrifol am ddiogelu plant, a chynaliadwyedd y gwelliannau a wnaed, a bydd hyn yn parhau yn ystod hanner cyntaf 2025-26.







## Gwaith Dilynol: Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion - Llwybr Strôc

Yn dilyn ein Hadolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion a oedd yn canolbwyntio ar daith y claf drwy'r llwybr strôc, mae AGIC wedi parhau i asesu sut mae byrddau iechyd yn ymateb i'r risgiau a'r heriau a nodwyd. Ystyriodd yr adolygiad gwreiddiol sut mae oedi cyn asesu, trin a rhyddhau yn effeithio ar ddiogelwch a chanlyniadau cleifion, ac archwiliodd gadernid y systemau sydd ar waith i reoli llif ar bob cam gofal.

Mae ein gwaith dilynol wedi canolbwyntio ar welliannau o ran y gallu i gael gofal strôc aciwt mewn modd amserol, cydlyniant rhwng gwasanaethau, a chynlluniau diogel i ryddhau cleifion. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn lliniaru niwed i gleifion sy'n aros am ofal a chynnal ansawdd drwy gydol y llwybr strôc.

Drwy ein proses ddilynol, mae'n amlwg bod cynnydd wedi'i wneud tuag at roi gwelliannau ar waith, er bod angen rhywfaint o waith pellach i gwblhau rhai camau gweithredu. Bydd AGIC yn parhau i oruchwylio drwy ei phrosesau sicrwydd a thrwy ymgysylltu'n barhaus â byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu hymgorffori a bod gwasanaethau strôc ledled Cymru yn darparu gofal diogel, effeithiol ac amserol.



06.

# Gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghymru: Ein Sicrwydd a'n Heffaith



# Cipolwg ar Ein Gweithgarwch y Flwyddyn Hon

Mae gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru yn parhau i wynebu pwysau sylweddol a chynyddol. O safbwynt AGIC, dyma un o'r meysydd gofal iechyd mwyaf cymhleth a risg uchel rydym yn eu harolygu a'u rheoleiddio, sy'n gofyn am sylw parhaus, arweinyddiaeth gref, ac ymrwymiad ar draws y system gyfan i wella.

**Yr Hyn a Wnaethom yn 2024-2025**

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 25 o arolygiadau ar y safle o wardiau cleifion mewnol a thimau iechyd meddwl cymunedol yn ysbytai'r GIG ac mewn ysbytai annibynnol. Roedd y rhain yn ymdrin ag amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys:

- Iechyd Meddwl Oedolion
- Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Gwasanaethau Anableddau Dysgu.

Canolbwyntiodd ein harolygiadau ar ansawdd a phrofiad y claf, y gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, a chryfder yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu. Er ein bod wedi gweld nifer o enghreifftiau o ofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sbardunodd **36%** o'r arolygiadau brosesau sicrwydd ar unwaith neu ddiffyg cydymffurfio o ganlyniad i beryglon a oedd yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

## Yr Hyn Rydym yn ei Weld Ledled Cymru

Er bod llawer o wasanaethau yn ceisio darparu gofal o ansawdd uchel, erys heriau cyson, y mae llawer ohonynt wedi'u nodi mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnal a chadw ystadau a risgiau amgylcheddol mewn lleoliadau cleifion mewnol
- Prinder gweithwyr a phryderon am ddiogelwch
- Bylchau mewn hyfforddiant, goruchwyliaeth, a gweithgarwch archwilio
- Dogfennaeth a gwybodaeth anghyson i gleifion
- Gwendidau o ran llywodraethu a goruchwylio.

Ar yr un pryd, rydym yn parhau i weld ymarfer cadarnhaol, gan gynnwys:

- Gofal tosturiol a pharchus
- Ymgysylltu ystyrlon â chleifion
- Ymarfer clinigol diogel
- Arweinyddiaeth leol gref.

Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu system sydd o dan straen. Mae'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig i blant a phobl ifanc, yn bryder cenedlaethol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hyn, bydd angen camau gweithredu cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth, GIG Cymru, a darparwyr annibynnol, gan ganolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu, buddsoddi mewn amgylcheddau diogel, ac atebolrwydd cryfach.



## Bwrw Golwg Manylach: Unedau Iechyd Meddwl y GIG: Staff Ymroddedig, Heriau Systemig

Ym mhob un o'r unedau iechyd meddwl, cafodd staff eu canmol yn gyson am eu tosturi, eu parch, a'u hymroddiad i ofal cleifion. Nododd cleifion yn gyson eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi, hyd yn oed yn wyneb prinder staff. Fodd bynnag, nodwyd materion helaeth yn ymwneud â'r amgylchedd a seilwaith, gyda llawer o gyfleusterau'n dangos arwyddion o ddirywiad ffisegol fel llwydni, gosodiadau wedi torri, ac awyru gwael. Roedd risgiau pwyntiau clymu yn bryder cyson, ac nid oedd gan rai unedau gyfarpar diogelwch hanfodol neu nid oeddent wedi cynnal archwiliadau yn ddiweddar. Roedd preifatrwydd weithiau'n cael ei gyfaddawdu mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i ardaloedd a rennir a diffyg llenni.

Roedd dogfennaeth a chynlluniau gofal yn amrywio rhwng unedau; roedd rhai ohonynt yn cadw cofnodion trylwyr ond roedd bylchau mewn dogfennaeth, yn enwedig mewn perthynas â chofnodi achosion o atal yn gorfforol, mewn rhai eraill. Roedd dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio ar y cyfan, ond roedd y llwybrau archwilio yn wan neu'n anghyflawn weithiau. Roedd diogelwch a hyfforddiant yn feysydd a oedd yn peri pryder, yn enwedig o ran cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar ymyriadau corfforol a chynnal bywyd brys. Nodwyd materion yn ymwneud â rheoli heintiau, cyfarpar meddygol heb ei osod yn sownd a threfniadau gwael ar gyfer storio meddyginiaeth yn gyson.

Roedd strwythurau arwain a llywodraethu yn bresennol yn y rhan fwyaf o unedau. Er bod y timau arwain yn aml yn cael eu disgrifio'n hawdd mynd atynt ac yn gefnogol, teimlai'r staff yn gyson eu bod yn cael eu hannog i beidio â lleisio pryderon ac nad oeddent yn hyderus y byddai'r uwch-reolwyr yn ymateb iddynt. Roedd prosesau llywodraethu weithiau'n cael eu tanseilio gan hen bolisïau a dulliau archwilio aneffeithiol. Roedd pwysau o ran staffio ac adnoddau yn amlwg ar draws yr unedau, gyda chyfraddau swyddi gwag uchel a dibyniaeth fawr ar staff asiantaeth yn cyfrannu at forâl isel. Roedd oedi cyn caffael cyfarpar a dyrannu adnoddau yn llesteirio'r gallu i ddarparu gofal effeithiol ymhellach.

Yn olaf, roedd profiadau cleifion a mynediad at weithgareddau therapiwtig yn amrywio'n fawr. Er bod cleifion yn gwerthfawrogi'r gallu i fynd allan i'r awyr agored a rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff, nid oedd gan lawer o unedau raglenni therapiwtig strwythuredig, mynediad at weithgareddau wedi'u cynllunio, dyfeisiau trydanol, nac opsiynau bwyd amrywiol. Nid oedd ardaloedd therapiwtig yn aml yn cael eu defnyddio'n ddigonol, neu nid oeddent yn cynnwys cyfarpar digonol, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu mewn modd ystyrlon ac adfer.

Ar y cyfan, mae ein canfyddiadau'n adlewyrchu system iechyd meddwl lle mae'r staff yn gwneud eu gorau o dan bwysau, gan ddangos tosturi a phroffesiynoldeb y mae cleifion yn ei werthfawrogi. Fodd bynnag, mae hefyd yn tynnu sylw at heriau difrifol, yn enwedig o ran seilwaith gwael, dogfennaeth anghyson, bylchau mewn hyfforddiant, a phrinder staff sydd, gyda'i gilydd, yn effeithio ar ansawdd y gofal. Mae'r arweinwyr yn bresennol ond nid ydynt bob amser yn effeithiol, ac yn aml, nid oes gweithgareddau therapiwtig ystyrlon ar gael i gleifion. Ar y cyfan, mae'n dangos gweithlu ymrwymedig sydd wedi'i gyfyngu gan faterion systemig y mae angen rhoi sylw arnynt ar frys.

## Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Deddf Iechyd Meddwl 1983 yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n galluogi unigolion â chyflyrau iechyd meddwl i gael eu cadw a'u trin yn yr ysbyty pan fo angen er mwyn eu cadw nhw, neu eraill, yn ddiogel. Mae Cod Ymarfer Cymru (2016) yn darparu canllawiau ar sut y dylai'r Ddeddf gael ei chymhwyso yn ymarferol, gan sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu hamddiffyn a bod gofal yn cael ei ddarparu'n gyfreithlon ac yn barchus.


Fel rhan o'n rôl reoleiddio, mae AGIC yn arolygu sut mae gwasanaethau yn cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ystod 2024-25, cadarnhaodd ein harolygiadau fod y rhan fwyf o gleifion yn cael eu cadw'n briodol a bod y trefniadau diogelu cyfreithiol yn cael ei dilyn ar y cyfan. Gwnaethom nodi'r canlynol:

- Dogfennaeth wedi'i rheoli'n dda yr oedd yn hawdd cael gafael arni ac a oedd yn cael storio'n ddiogel
- Systemau effeithiol a oedd yn cael eu goruchwylio gan weinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau eirioli ar gael ac yn cael eu hyrwyddo ymhlith y cleifionients.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella hefyd:

- Prosesau cofnodi anghyson mewn perthynas â statws cyfreithiol, hawliau cleifion, a phenderfyniadau allweddol
- Bylchau mewn gweithdrefnau absenoldeb Adran 17, gan gynnwys asesiadau risg a chyfathrebu
- Gwendidau o ran sut y caiff capasiti a chydsyniad eu hasesu a'u dogfennu
- Oedi cyn cynnal adolygiadau a chymorth gweinyddol cyfyngedig
- Cofnodion anghyflawn o ddata ar gydraddoldeb a demograffeg.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos pwysigrwydd systemau cadarn a dogfennaeth glir i gynnal hawliau cleifion a sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn a chefnogi gwelliannau o ran sut y caiff y Ddeddf ei chymhwyso.



## Y Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn

Mae'r gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) yn ffordd hollbwysig o ddiogelu cleifion sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl na allant gydsynio i driniaethau penodol neu sy'n gwrthod gwneud hynny. Seiciatrydd annibynnol yw Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, sy'n adolygu a yw'r driniaeth arfaethedig yn briodol ac yn gyfreithlon. Mae hyn yn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu diogelu a bod rhywun yn craffu'n allanol ar benderfyniadau am driniaeth.

Yng Nghymru, darperir gwasanaeth SOAD gan y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl, ar ran Gweinidogion Cymru. Yn ystod 2024-25, rheolodd y gwasanaeth 782 o achosion gan ddefnyddio model hybrid o asesiadau o bell ac asesiadau ar y safle. Defnyddiodd Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn ddisgresiwn proffesiynol wrth ddewis y dull mwyaf priodol ym mhob achos, a chafodd pob penderfyniad ei ddogfennu'n glir.

Rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth SOAD drwy rannu canfyddiadau perthnasol ein harolygiadau a sicrhau bod unrhyw bryderon am arferion trin yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol. Rydym hefyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu canllawiau ac adnoddau cenedlaethol sy'n helpu i safoni'r broses SOAD ledled Cymru.

Disgwylir i ganllawiau a phecynnau cymorth newydd a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid gael eu cyhoeddi ddiwedd 2025. Bydd y rhain yn atgyfnerthu cysondeb, tryloywder a thegwch proses SOAD, gan sicrhau bod cleifion yn parhau i gael gofal diogel a chyfreithlon o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.



07.

# Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau



# Pryderon: Ein Gweithgarwch y Flwyddyn Hon

Rydym yn ymrwymedig i ymdrin â phryderon yn deg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae pryderon yn fwy nag adborth; maent yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig sy'n ein helpu i nodi risgiau, tynnu sylw at arferion da, ac ysgogi gwelliannau ar draws gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

## Pam Mae Pryderon yn Bwysig

Mae llawer o'n gwaith wrth ymateb i bryderon yn digwydd y tu ôl i'r llenni. Yn wahanol i arolygiadau neu adolygiadau a gyhoeddir, nid yw'r gwaith hwn bob amser yn weladwy, ond mae'n rhan hollbwysig o'r ffordd rydym yn dwyn sefydliadau i gyfrif. Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau a darparwyr, rydym yn ceisio sicrwydd, yn herio arferion gwael, ac yn uwchgyfeirio risgiau lle bo angen. Mae'r gwaith hwn yn aml yn nodi arwyddion cynnar materion dyfnach ac mae'n chwarae rôl allweddol wrth ddiogelu cleifion ac ysgogi gwelliannau ar draws y system.

Er nad corff cwynion yw AGIC, mae'r pryderon a gawn yn ein helpu i lunio darlun cliriach o'r ffordd y mae gwasanaethau yn gweithredu a'r meysydd lle nad ydynt o bosibl yn cyrraedd y safonau. Mae'r wybodaeth hon yn llywio ein harolygiadau, ein hadolygiadau thematig, a'n gweithgarwch sicrwydd ehangach yn uniongyrchol, sy'n golygu ei bod yn rhan hollbwysig o'n rôl sicrwydd.

## Sut Rydym yn Ymateb

Caiff pob pryder a gawn ei frysbennu a'i asesu o ran risg er mwyn pennu'r ymateb priodol:

**Mae angen gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â phryderon risg uchel, gan ymateb iddynt o fewn dau ddiwrnod gwaith.**

**Eir i'r afael â phryderon risg ganolig o fewn pum diwrnod gwaith, ac mae'n bosibl y bydd AGIC yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r broses hon.**

**Fel arfer, caiff pryderon risg isel eu cyfeirio at broses Gweithio i Wella y GIG neu broses cwynion y darparwr annibynnol perthnasol, ac ymatebir iddynt o fewn saith diwrnod gwaith.**

Rydym yn gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael â phryderon risg uchel, gan geisio sicrwydd ar unwaith gan y darparwr gofal iechyd dan sylw.

## Cipolwg ar Bryderon


Yn ystod 2024-25, cawsom 743 o bryderon - cynnydd o 21% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chynnydd syfrdanol o 102% ers 2019-20.

Mae'r cynnydd sydyn hwn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd, hyder cynyddol yn rôl AGIC ac, o bosib, pwysau systemig dyfnach ar draws gwasanaethau gofal iechyd.

Mae pobl yn codi eu llais yn amlach, ac â mwy o frys, am y gofal y maent yn ei gael. Mae hyn yn dangos galw am atebolrwydd, a chydnabyddiaeth bod AGIC yn llwybr dibynadwy ar gyfer codi materion difrifol.

Rydym hefyd yn gweld pryderon mwy cymhleth yn cael eu codi. Mae llawer ohonynt bellach yn ymwneud â nifer o feysydd gwasanaeth a lefelau risg uwch, ac yn gofyn am gamau dilynol dwysach.


Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion lle rydym yn ceisio sicrwydd uniongyrchol gan ddarparwyr, sy'n dangos maint a difrifoldeb y materion sy'n cael eu codi.



# Gan Bwy y Gwnaed y Pryderon

Cyfyngiadau

| | |
|---|---|
| **BIPAB** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **BIPBC** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **BIPCF** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **BIPCTM** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **BIPHD** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **DGIA** | Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol |
| **BIAP** | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **BIPBA** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **ICC** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Velindre** | Felindre |
| **WAST** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |



## Yr Hyn a Ddywedodd Pobl Wrthym

Roedd y themâu mwyaf cyffredin a nodwyd yn cynnwys:

**Safonau gofal mewn lleoliadau cleifion mewnol (y GIG a phreifat)**

**Pwysau mewn adrannau achosion brys, gan gynnwys amseroedd aros hir ac adrannau gorlawn**

**Y gallu i gael apwyntiadau i weld meddyg teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol**



**Y gallu i gael gofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat**

**Cymorth iechyd meddwl mewn lleoliadau cleifion mewnol a lleoliadau cymunedol**

**Oedi a diffyg cydgysylltu o ran prosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty**

# Chwythu'r Chwiban: Codi Llais dros Ddiogelwch

Mae chwythu'r chwiban yn chwarae rôl hollbwysig wrth amddiffyn cleifion a gwella gwasanaethau gofal iechyd. Rhaid i staff deimlo eu bod yn gallu codi eu llais pan fyddant yn gweld arferion gwael, amodau anniogel, neu faterion diwylliannol sy'n cyfaddawdu gofal.

Mae'r pryderon a godir drwy chwythu'r chwiban yn aml yn mynd y tu hwnt i ddigwyddiadau unigol. Maent yn taflu goleuni ar faterion dyfnach yn ymwneud ag arweinyddiaeth, llywodraethu a diwylliant sefydliadol.

Dyma pam y mae rôl AGIC fel corff rhagnodedig mor bwysig. Mae staff yn cysylltu â ni nid yn unig er mwyn rhoi gwybod am risgiau i ddiogelwch ac ansawdd, ond hefyd i dynnu sylw at amgylcheddau lle nad oes modd codi llais yn fewnol mewn ffordd ddiogel neu effeithiol. Mae'r datgeliadau hyn yn ein helpu i nodi patrymau, uwchgyfeirio pryderon difrifol, a dwyn sefydliadau i gyfrif mewn ffyrdd na fyddent yn bosibl drwy sianeli eraill.

Yn ystod 2024-25, cawsom 743 o bryderon chwythu'r chwiban – cynnydd o 21% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd y pryderon hyn yn aml yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Safonau gofal a thriniaeth
- Arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol
- Llywodraethu ac atebolrwydd
- Lefelau staffio a chapasiti'r gwasanaeth.

Mae hyn yn dangos parodrwydd i godi llais ac angen parhaus am oruchwyliaeth allanol gadarn. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i wrando, amddiffyn y rhai sy'n codi pryderon, a sicrhau bod eu lleisiau'n arwain at newid ystyrlon.

Rydym yn cymryd pryderon chwythu'r chwiban o ddifrif. Yn dibynnu ar natur y mater, mae'n bosibl y byddwn yn ceisio sicrwydd pellach neu'n atgyfeirio'r mater at reoleiddiwr arall.

**36%**
cynnydd o'r flwyddyn flaenorol



# Hysbysiadau Rheoleiddio: Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i Ni

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol roi gwybod i ni am ddigwyddiadau penodol o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rydym hefyd yn monitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R).


Yn ystod 2024-25, cawsom 2,231 o hysbysiadau statudol - cynnydd o 23% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae hyn yn adlewyrchu gweithgarwch cynyddol yn y sector annibynnol ac ymwybyddiaeth gryfach o rwymedigaethau adrodd.

Caiff pob hysbysiad ei adolygu a'i asesu gan ein tîm er mwyn pennu lefel y risg ac a oes angen cymryd camau pellach. Mae'r adroddiadau hyn yn ein helpu i nodi tueddiadau, cynllunio arolygiadau, a llywio ein penderfyniadau rheoleiddio.


Rydym hefyd yn gweld mwy o hysbysiadau gan fathau penodol o wasanaethau, yn enwedig hosbisau ac ysbytai annibynnol, a all adlewyrchu mwy o weithgarwch craffu a chydymffurfiaeth well â'r gofynion hysbysu.

**Dadansoddiad o Hysbysiadau**







## Hysbysiadau Rheoliadau 30/31 a Adolygwyd yn ôl Is-deipiau




## Hysbysiadau Rheoleiddio Deintyddiaeth Breifat a Gafwyd



# Hysbysiadau IR(ME)R yn ôl Lleoliad

Cyfyngiadau


| | |
|---|---|
| **BIPAB** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **BIPBC** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **BIPCF** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **BIPCTM** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **BIPHD** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **DGIA** | Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol |
| **BIAP** | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **BIPBA** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **ICC** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Velindre** | Felindre |
| **WAST** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |



## Marwolaeth yn y Ddalfa

Yng Nghymru, mae pob marwolaeth yn y ddalfa yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth. Fel rhan o'r broses genedlaethol hon, mae AGIC yn cynnal adolygiadau clinigol i asesu a oedd y gofal iechyd a ddarparwyd yn gyfystyr â'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Mae'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar amseroldeb, priodoldeb a pharhad gofal.

**Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, cwblhaodd AGIC 18 o adolygiadau clinigol mewn carchardai yng Nghymru:**



### CEF y Parc: Anghenion Cymhleth a Chyfleoedd a Gollwyd

Mae'r mwyafrif o adolygiadau yn CEF y Parc yn nodi materion mynych o ran rheoli salwch cronig, iechyd meddwl, ac achosion o gamddefnyddio sylweddau. Roedd chwe marwolaeth yn gysylltiedig â chyflyrau hirdymor fel canser a chlefyd cardiofasgwlaidd, ac mewn sawl achos, nodwyd cyfleoedd a gollwyd i ymyrryd yn gynnar ac atgyfeirio'r claf at gymorth arbenigol. Yn achos bron hanner yr achosion, nodwyd pryderon iechyd meddwl yn cynnwys seicosis, iselder a nam gwybyddol, ynghyd â defnydd anghyson o weithdrefnau Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) a gofal ystyriol o drawma cyfyngedig.

Roedd camddefnyddio sylweddau, yn enwedig Sylweddau Seicoweithredol newydd, yn bryder sylweddol. Roedd y defnydd o wasanaethau arbenigol yn amrywio, ac nid oedd cyngor ar leihau niwed bob amser yn cael ei ddogfennu. Roedd diffyg integreiddio cofnodion allanol ac oedi cyn rhannu gwybodaeth rhwng carchardai hefyd yn cyfrannu at fylchau mewn gofal.

Roedd y prif feysydd i'w gwella yn cynnwys:

- Asesiadau iechyd ail gam amserol
- Systemau atgyfeirio a chamau dilynol cadarn
- Cynnwys gofal iechyd mewn adolygiadau ACCT yn gyson
- Cynlluniau gofal diwedd oes tosturiol
- Negeseuon a dogfennaeth lleihau niwed cryfach.

### Carchardai Eraill: Heriau Cyffredin ar Draws yr Ystad

Dangosodd adolygiadau gan garchardai eraill faterion systemig tebyg. Yn aml, roedd nifer o agweddau a oedd yn gwneud unigolion yn agored i niwed, gan gynnwys anghenion iechyd meddwl, hanes o gamddefnyddio sylweddau, a risg o gyflawni hunanladdiad. Roedd diffyg cyfathrebu a dogfennu yn gyffredin, ac nid oedd cofnodion neu gyfarfodydd trosglwyddo bob amser yn cynnwys gwybodaeth bwysig, fel datgeliadau o orddos neu ddangosyddion risg hunanladdiad.

Roedd adnoddau asesu risg fel IPRA ac algorithmau yn cael eu cymhwyso'n anghyson, weithiau heb gyswllt wyneb yn wyneb neu gyd-destun clinigol llawn. Nodwyd cyfleoedd a gollwyd ar gyfer ymyriadau iechyd meddwl cynnar hefyd, ac mewn rhai achosion, nid oedd gweithdrefnau ACCT yn cael eu dilyn yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Roedd pryderon ychwanegol yn cynnwys:

- Trefniadau llywodraethu clinigol gwan mewn perthynas â gofal ataliol
- Diffyg protocolau ar gyfer rheoli eitemau wedi'u celu
- Brechiadau a gollwyd ac oedi cyn atgyfeirio.

Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio'r angen am ddull carchar cyfan o ddarparu gofal iechyd, lle mae gwasanaethau clinigol, carcharu a chymorth yn cydweithio i ddiogelu llesiant unigolion yn y ddalfa. Erys AGIC yn ymrwymedig i gefnogi gwelliant parhaus drwy weithgarwch craffu annibynnol ac argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

08.

# Ymgysylltu a Phartneriaethau



# Partneriaethau

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom atgyfnerthu ein rôl fel sefydliad sy'n cysylltu'r system ac yn galluogi dysgu ar y cyd. Drwy gytundebau ffurfiol a chydweithredu cenedlaethol, mae AGIC wedi helpu i lunio'r dirwedd arolygu a rheoleiddio ac wedi cefnogi ymdrechion ar y cyd i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ledled Cymru.

## Cytundebau Ffurfiol ac Atebolrwydd a Rennir

Gwnaeth AGIC ddiweddaru a llofnodi chwe Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â chyrff cenedlaethol allweddol, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Comisiynydd Plant Cymru, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r cytundebau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad AGIC i reoleiddio cydweithredol, gan sicrhau bod y sianeli cywir yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â phryderon a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol i amddiffyn cleifion a gwella gwasanaethau.

## Uwchgynadleddau Gofal Iechyd Cenedlaethol

Cynhaliodd AGIC ddwy Uwchgynhadledd Gofal Iechyd genedlaethol ym mis Mai a mis Tachwedd 2024, gan ddod ag amrywiaeth eang o bartneriaid ynghyd i rannu gwybodaeth a myfyrio ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd ym mhob rhan o GIG Cymru. Mae'r uwchgynadleddau hyn yn rhan allweddol o rôl AGIC i alluogi gwybodaeth a gwelliant ym mhob rhan o'r system. Ymhlith y themâu roedd:

### Pwysau ar y System

Yn ystod y ddwy gynhadledd, clywodd AGIC bryderon am amseroedd aros hir am ofal a gynlluniwyd, yn enwedig i gleifion a oedd yn aros mwy na 104 wythnos. Er bod rhai byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd, mae eraill yn parhau i wynebu heriau. Nodwyd hefyd oedi o ran gofal mewn argyfwng a throsglwyddo cleifion o ambiwlansys, a oedd yn aml yn gysylltiedig â llif cleifion gwael ac oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig i blant a phobl ifanc, yn dal i fod dan bwysau, gyda phryderon am fynediad a pharodrwydd y GIG i dderbyn diagnosis preifat.



## Risgiau sy'n Benodol i Wasanaethau

Cafodd nifer o feysydd gofal eu nodi'n bryderon cenedlaethol. Nodwyd bod gwasanaethau offthalmoleg (gofal y llygaid) yn peri risg i ddiogelwch cleifion, gydag amrywiadau mewn perfformiad a bylchau mewn arweinyddiaeth. Cafodd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol eu nodi am brofiadau anghyson a phwysau o ran staffio. Mae gwasanaethau radioleg yn wynebu llwythi achosion uchel a phroblemau o ran cyfathrebu rhwng meddygon teulu ac ysbytai, ac mae'r gallu i gael gofal sylfaenol yn parhau i fod yn bryder, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

## Y Gweithlu a Seilwaith

Croesawodd AGIC arwyddion cynnydd o ran cynllunio gweithlu'r GIG, gan gynnwys ymdrechion i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth a gwella'r cymorth i recriwtiaid o dramor. Fodd bynnag, erys pryderon sylweddol am gyflwr ystadau'r GIG, ac mae oedi o ran cynnal a chadw a heriau o ran llywodraethu yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau.

## Arloesi a Chydweithio

Er gwaethaf y pwysau, nododd y rhai a gyfrannodd at yr uwchgynadleddau enghreifftiau o arloesi, fel byrddau iechyd yn rhannu gwasanaethau, y defnydd o adnoddau digidol fel System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru, a nifer o fentrau a phrosiectau peilot sy'n cael eu cynnal ar draws arbenigeddau. Mae'r mentrau hyn yn dangos sut y gall cydweithio a bod yn greadigol ysgogi gwelliant, hyd yn oed mewn amgylchedd sy'n wynebu cyfyngiadau ariannol.

Mae gwaith partneriaeth y flwyddyn hon yn adlewyrchu rôl AGIC sy'n esblygu fel rheoleiddiwr ac arweinydd y system, gan ddod â phobl ynghyd, rhannu gwybodaeth, a helpu i greu system gofal iechyd fwy diogel ac ymatebol i Gymru.



# Gwybodaeth Glinigol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae swyddogaeth Glinigol Acíwt AGIC wedi chware rhan hollbwysig wrth ymgorffori arbenigedd clinigol wrth wraidd ein gwaith arolygu a rheoleiddio. Mae'r cyfraniadau hyn wedi helpu i lywio'r ffordd rydym yn cynllunio, yn arolygu ac yn ymateb i ansawdd a diogelwch gofal ledled Cymru, gan sicrhau bod ein gwaith yn parhau i fod wedi'i seilio ar ddealltwriaeth glinigol byd go iawn.

## Defnyddio Adolygwyr Cymheiriaid

Mae AGIC yn defnyddio adolygwyr cymheiriaid clinigol i gyfrannu gwybodaeth rheng flaen ac arbenigol at ein gwaith sicrwydd. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn, sy'n parhau i ymarfer yn eu priod feysydd, yn cynnig safbwynt ymarferol cyfredol ar y gofal a ddarperir. Mae eu cyfraniad yn helpu i sicrhau bod ein harolygiadau nid yn unig yn seiliedig ar dystiolaeth ond hefyd yn glinigol gredadwy ac yn berthnasol i'r gwasanaethau rydym yn eu hadolygu. Mae adolygwyr cymheiriaid yn pontio AGIC a'r system gofal iechyd ehangach, gan ein helpu i gael gwybodaeth barhaus am realiti'r gofal a ddarperir a meithrin diwylliant o ddysgu ar y cyd a gwella. Dros y flwyddyn, rydym wedi atgyfnerthu ein cronfa o adolygwyr cymheiriaid clinigol drwy fapio arbenigeddau er mwyn sicrhau bod gennym yr arbenigedd cywir ar gyfer pob arolygiad.

## Rhoi Cyngor Arbenigol

Mae'r tîm Clinigol Acíwt wedi rhoi cyngor arbenigol ar amrywiaeth eang o faterion, gan ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o'r pryderon am ddiogelwch a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae eu mewnbwn wedi llywio arolygiadau penodol ac adolygiadau ar lefel y system ehangach, gan sicrhau bod ein canfyddiadau'n gadarn ac yn seiliedig ar wybodaeth glinigol.

## Gweithio gyda'r GIG

Mae'r tîm wedi cyfrannu at ymgyngoriadau a grwpiau diogelu cenedlaethol, gan sicrhau bod llais AGIC yn cael ei glywed wrth lunio polisïau iechyd a gwella gofal. Mae ei waith wedi helpu i gysoni ein gwaith â blaenoriaethau cenedlaethol ac wedi helpu i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd mwy diogel ac effeithiol ledled Cymru.

# Ymgysylltu - Gwrando a Dysgu

Mae gwrando ar y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ac yn gweithio ynddynt yn hollbwysig er mwyn deall sut mae gofal yn cael ei ddarparu ledled Cymru mewn gwirionedd. Mae eu profiadau yn rhoi gwybodaeth bwerus i ni am yr hyn sydd bwysicaf a'r meysydd lle mae angen newid.

Rydym yn meithrin y ddealltwriaeth hon drwy bob rhan o'n gwaith. Yn ystod arolygiadau ac adolygiadau, rydym yn siarad yn uniongyrchol â staff, cleifion, a gofalwyr, gan eu gwahodd i rannu eu profiadau drwy sgyrsiau ac arolygon byr. Y tu hwnt i arolygiadau, rydym yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, posteri a digwyddiadau i gyrraedd mwy o bobl, codi ymwybyddiaeth o'n gwaith, a chasglu adborth ehangach.

Mae'r adborth hwn yn atgyfnerthu ein canfyddiadau, yn herio tybiaethau ac yn ysgogi gwelliannau gwirioneddol ym maes gofal iechyd. Rydym yn gwneud mwy na dim ond gwrando ar leisiau pobl; maent yn llywio'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud a'r newidiadau rydym yn pwyso amdanynt.

Drwy ddatblygu cydberthnasau cryfach a cheisio gwybodaeth ystyrlon, rydym yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau pobl o ofal, gan ein helpu i ddylanwadu ar newid lle mae ie angen fwyaf.

**2024-2025**

**1,657**
cwblhawyd 1,657 o arolygon staff

**163**
cynhaliwyd 163 o arolygiadau ar y safle

**3,407**
dychwelwyd 3,407 o arolygon cleifion, gofalwyr a chyhoeddus

## Codi Ymwybyddiaeth ac Ennyn Hyder y Cyhoedd

Yn ystod 2024-2025, gwnaethom gyhoeddi 140 o adroddiadau arolygu, y rhoddwyd sylw i rai ohonynt yn y wasg leol a chenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau wedi'u recordio ymlaen llaw â'r prif ddarlledwyr, gan helpu i godi proffil ein gwaith ac ennyn hyder y cyhoedd yn y broses o graffu'n annibynnol ar wasanaethau gofal iechyd.

Ers 2018, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi cynyddu'n sylweddol o 27% i 47% yn 2024, gan gynrychioli cynnydd o 74% dros bum mlynedd. Mae ymwybyddiaeth bron wedi dyblu, gyda bron iawn hanner yr ymatebwyr bellach yn gyfarwydd ag AGIC.

**74%**
cynnydd dros bum mlynedd

Mae ein harolwg omnibws cenedlaethol diweddaraf yn dangos y canlynol:

**28%**
daeth 28% o bobl yn ymwybodol o AGIC drwy ffynonellau ar-lein neu wefannau

**25%**
clywodd 25% amdanom drwy'r radio

**20%**
nododd 20% eu bod wedi clywed amdanom drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Mae'r amlygrwydd cynyddol hwn yn hollbwysig. Mae'n meithrin tryloywder ac yn ennyn hyder y cyhoedd, yn rhoi sicrwydd i bobl bod safonau gofal yn cael eu monitro'n annibynnol, ac yn annog darparwyr gofal iechyd i gynnal lefelau uchel o ddiogelwch ac ansawdd.

## Ymgysylltu Hygyrch, Cynhwysol ac Effeithiol

Credwn fod yn rhaid i weithgarwch ymgysylltu ystyrlon fod yn hygyrch ac yn gynhwysol, a chynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Y flwyddyn hon, rydym wedi cymryd camau sylweddol i atgyfnerthu'r ffordd rydym yn cyfathrebu, yn rhannu gwybodaeth, ac yn meithrin cydberthnasau ledled Cymru.

Rydym yn ymrwymedig i ddileu rhwystrau i ddeall a chymryd rhan.

Yn ystod 2024-2025, gwnaethom:

- Lunio animeiddiadau a chynnwys gweledol i bobl ifanc i ategu ein hadolygiad cenedlaethol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), gan sicrhau ein bod yn rhoi mwy o lais i bobl ifanc. Cafodd yr adnoddau hyn eu rhannu'n eang gan bartneriaid, gan gynnwys adran Addysg Llywodraeth Cymru, Mind Cymru, ac Youth Cymru
- Ymateb i archwiliad Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth drwy fynd i'r afael â'r holl faterion o ran hygyrchedd ar draws ein llwyfannau digidol, gan wella profiad pob defnyddiwr.
- Cyflwyno canllawiau mewnol newydd er mwyn helpu staff i ysgrifennu'n glir ac yn gynhwysol, ac rydym bellach yn anelu at gyhoeddi ein gwaith ar ffurf PDF ac mewn fformatau gwe cwbl hygyrch.

## Dysgu a Dealltwriaeth sy'n Ysgogi Gwelliannau

Rydym yn parhau i rannu gwersi a ddysgwyd o'n gwaith sicrwydd er mwyn cefnogi gwelliannau ym mhob rhan o'r system iechyd a gofal:

- Mae ein bwletinau Arsylwi chwarterol bellach yn cyrraedd dros 7,000 o danysgrifwyr, gan roi crynodebau amserol o ganfyddiadau allweddol, risgiau sy'n dod i'r amlwg, ac arferion da
- Gwnaethom ehangu adran Dysgu a Dealltwriaeth ein gwefan, drwy gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o'r ffordd y mae ein gwaith yn helpu i sbarduno newid ym mhob rhan o'r system.

Drwy sicrhau bod ein gwybodaeth yn fwy hygyrch a bod modd gweithredu arni, rydym yn helpu darparwyr, llunwyr polisïau, a'r cyhoedd i ddeall sut mae gofal yn gwella a'r meysydd y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt.

# Uchafbwyntiau Ymgysylltu

## Bod yn Weladwy, Ennyn Ymddiriedaeth

Rydym yn fwy gweladwy nag erioed o'r blaen. Y flwyddyn hon, aeth ein timau i ddigwyddiadau cenedlaethol mawr, gan gynnwys Cynhadledd Coleg Brenhinol y Bydwragedd a'r Sioe Iechyd Meddwl a Llesiant. Drwy'r cyfleoedd hyn, bu modd i ni:

- Esbonio ein rôl a'r ffordd rydym yn gweithio
- Casglu adborth gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd
- Hyrwyddo mentrau fel ein rhaglen recriwtio adolygwyr cymheiriaid.

Gwnaethom hefyd ailwampio ein stondin arddangos a'n deunyddiau hyrwyddo er mwyn sicrhau eu bod yn ddiddorol, yn gynhwysol ac yn amgylcheddol gynaliadwy, gan adlewyrchu ein gwerthoedd o ran ffurf a swyddogaeth.

**50**
Rhannwyd 56 Rhifyn o'n cylchlythyr mewnol, 'Connect', â'r staff

**140**
Adroddiadau Arolygu a 33 o Eitemau Newyddion

**9k+ o Danysgrifwyr â'n Cylthlythyr, cynnydd o fwy na 2,000+ o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf**

**511k o Ymweliadau â'n Gwefan - cynnydd o 100% o gymharu â 255k y flwyddyn ddiwethaf**

**+381 o Ddilynwyr Newydd ar y Cyfryngau Cymdeithasol**

**Cyhoeddwyd 1.4k o Bostiadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol**

**Cafodd ein Cynnwys ei Weld 670k o weithiau ar y cyfryngau cymdeithasol**

**Cafodd ein Fideos eu Gwylio 5.4k o Weithiau ar draws pob llwyfan**

**Cyhoeddwyd 22 o Hysbysiadau i'r Wasg i'r cyfryngau**

# Eirioli - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)

Yn AGIC, rydym yn ymrwymedig i herio anghydraddoldeb a sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn ystod 2024-2025, gwnaethom lansio Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-2028 mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â Chynllun, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru, ac mae'n nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer ymgorffori arferion cynhwysol yn y ddwy arolygiaeth.

Drwy gyfuno arbenigedd a chysoni blaenoriaethau strategol, rydym mewn sefyllfa well i ddylanwadu ar y system iechyd a gofal ehangach yng Nghymru.

## Pam Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Bwysig i AGIC

Gwyddom fod hunaniaeth, cefndir ac amgylchiadau pobl yn llywio eu profiadau o ofal iechyd. Drwy ddeall y gwahaniaethau hyn a mynd i'r afael â nhw, gallwn helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch ac yn barchus, a'u bod yn ymateb i anghenion pawb.

**Camau Gweithredu Allweddol yn ystod 2024-2025**

- **Sefydlwyd Grŵp Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Mae'r rhwydwaith mewnol hwn yn chwarae rôl allweddol wrth ymgorffori arferion cynhwysol ym mhob rhan o AGIC. Mae'r hyrwyddwyr yn gweithredu fel asiantau newid, gan godi ymwybyddiaeth, cefnogi cydweithwyr, a sicrhau ein bod yn ystyried Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- **Datblygwyd Nodiadau ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**: Mae'r adnodd ymarferol hwn yn rhoi canllawiau clir a hygyrch i arolygwyr i'w helpu i ymgysylltu mewn modd cynhwysol yn ystod arolygiadau. Mae'n cynnig cyfarwyddiadau ac ystyriaethau ar gyfer cynnal sgyrsiau ystyrlon â phobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan helpu i ennyn ymddiriedaeth, datgelu profiadau bywyd, a sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu hadlewyrchu yn ein canfyddiadau.
- **Cynhaliwyd Diwrnod Angori ar gyfer y sefydliad cyfan yn canolbwyntio ar y Model Cymdeithasol o Anabledd:** roedd y digwyddiad yn llwyfan gwych i ddod â staff ynghyd i glywed yn uniongyrchol gan bobl â phrofiad bywyd, am y rhwystrau a wynebir ganddynt ac am amcanion Cynllun Hawliau Pobl Anabl Llywodraeth Cymru. Roedd yn ffordd bwerus o'u hatgoffa o bwysigrwydd gwrando, dysgu a gweithredu i ddileu rhwystrau systemig.

Mae'r mentrau hyn yn helpu i feithrin diwylliant mwy cynhwysol yn AGIC ac yn llywio'r ffordd rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd, darparwyr, a phartneriaid.



## Gweithio gyda'n Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid

Mae ein Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid yn parhau i fod yn ffynhonnell her, gwybodaeth a chyfeiriad hollbwysig. Mae'r rhwydwaith amrywiol hwn o sefydliadau, sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig, yn sicrhau bod profiadau'r rhai â phrofiad bywyd ac arbenigedd yn llywio ein gwaith.

Yn ystod 2024-2025, gwnaethom groesawu AP Cymru, elusen niwroamrywiaeth, i'r grŵp. Ymunodd yr elusen ag aelodau presennol fel Mind Cymru, Age Cymru, Race Council Cymru, Gofalwyr Cymru, RNIB, Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, ac Youth Cymru.

Mae'r grŵp hwn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar y ffordd rydym yn gwneud y canlynol:

- Dylunio a chynnal gweithgareddau ymgysylltu
- Casglu a dehongli adborth
- Sicrhau bod ein harolygiadau a'n hadolygiadau yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol.

Mae ei gyfraniad yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael gofal iechyd ac i ddwyn gwasanaeth i gyfrif am fynd i'r afael â nhw.

## Y Gymraeg - Y Cynnig Rhagweithiol ar Waith

Rydym yn falch o hybu a chefnogi'r Gymraeg, gan sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â ni'n hyderus ac yn naturiol yn eu dewis iaith.

- Mae ein holl weithgarwch cyfathrebu cyhoeddus – o arolygon a chylchlythyrau i ddigwyddiadau a chynnwys digidol – yn gwbl ddwyieithog
- Yn fewnol, rydym bellach yn cyhoeddi ein bwletin staff yn ddwyieithog ac yn cynnal Cornel Cymraeg, nodwedd reolaidd sy'n helpu'r staff i feithrin eu sgiliau iaith a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol
- Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gynnal egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy, yn cael ei gwerthfawrogi, ac yn rhan naturiol o'n gweithgarwch ymgysylltu â phobl a chymunedau ledled Cymru.

At hynny, mae'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn rhan o'n methodoleg arolygu a thynnir sylw at ganfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu yn aml. Yn ystod 2024-2025, gwnaethom nodi nifer o enghreifftiau cadarnhaol lle roedd gwasanaethau gofal iechyd yn mynd ar drywydd y cynnig rhagweithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Staff yn gwneud ymdrechion i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' drwy gyfarch cleifion yn Gymraeg a pharhau â sgyrsiau yn Gymraeg os oedd y claf neu'r ymwelydd yn siarad Cymraeg
- Ward pediatrig â Hyrwyddwr y Gymraeg dynodedig. Mae'r rôl hon yn allweddol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod cleifion sy'n siarad Cymraeg yn cael cymorth a gwasanaethau priodol yn eu hiaith
- Roedd gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei harddangos neu ei darparu ym mhob rhan o'r ward. Roedd hyn yn sicrhau bod cleifion Cymraeg a'u teuluoedd yn cael gwybodaeth angenrheidiol yn eu dewis iaith.

# 09. Ein Hadnoddau



# Ein Hadnoddau

Ein pobl yw ein hadnodd pwysicaf o hyd. Unwaith eto, mae rhaglen o gyfleoedd dysgu a datblygu wedi'i chynllunio a'i chynnal yn unol ag adborth gan staff, ochr yn ochr â chyfres o ymarferion Gwersi a Ddysgwyd sy'n ein galluogi i fyfyrio ar feysydd o'n gwaith a dysgu oddi wrthynt.

Mae ein Fforwm Pobl mewnol yn parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o adborth i uwch-reolwyr AGIC am faterion staff a datblygiad sefydliadol. Rydym yn dibynnu ar arbenigedd clinigol ein Hadolygwyr Cymheiriaid arbenigol, ac ar hyn o bryd, mae gennym banel o fwy na 150 sydd â chefndir clinigol.

Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o Seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD). Mae gennym 44 o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad sy'n chwarae rôl hanfodol wrth asesu profiad cleifion drwy siarad â nhw. Mae ein system Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid (CRM) electronig bellach wedi'i sefydlu'n dda ac yn darparu data gwerthfawr sy'n cefnogi gwaith pob un o dimau AGIC.

| Tîm | Nifer y Swyddi |
|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol | 3 |
| Arolygu | 22 |
| Rheoleiddio ac Uwchgyfeirio | 17 |
| Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg | 12 |
| Strategaeth a Chyfathrebu | 6 |
| Cyngor Clinigol (gan gynnwys y gwasanaeth meddygon a ben-odwyd i roi ail farn | 7 |
| Gwasanaethau Rheoli Busnes, Digidol a Chorfforaethol | 20 |
| **Cyfanswm** | **87** |

# Cyllid

Ar gyfer 2024-2025, roedd gennym gyllideb o oddeutu £5.9m, sy'n cynnwys incwm ffioedd o'n rôl reoleiddio yn y sector annibynnol. Roedd gennym weithlu cyfwerth ag 87 o aelodau o staff llawn amser yn ogystal â phanel o fwy na 150 o adolygwyr arbenigol.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwnaethom ddefnyddio'r adnoddau ariannol a oedd ar gael i ni yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gyflawni ein gwaith yn ystod 2024-2025.

Cyllideb AGIC - £5,345,000



| Categori | Swm (Punnoedd Sterling) |
|---|---|
| Costau staff | £4,738,368 |
| Teithio a Chynhaliaeth | £39,534 |
| Dysgu a Datblygu | £8,643 |
| Costau heb fod yn gostau staff | £45,411 |
| Cyfieithu | £89,807 |
| Costau adolygwyr | £524,949 |
| Costau TGCh | £28,308 |
| **Cyfanswm y gwariant (a)** | **£5,475,021** |
| Incwm o Ofal Iechyd Annibynnol (b) | £618,065 |
| **Cyfanswm y Gwariant Net (a - b)** | **£4,856,956** |

# 10. Cysylltu â ni



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais.

Bydd oedi byr fel ieithoedd eraill a fformatau yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir iddynt gwrdd ag unigolyn anghenion. Cysylltwch â ni am help.

Mae copïau o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

0300 062 8163

agic@llyw.cymru

YouTube www.agic.org.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52336, ISBN digidol 978-1-80633-504-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg